


YN NYFFRYN HAFREN.

# ROBERT OWEN.

*

CYFROL II.

III. Cyfnod Apostolaeth 1831—1844.
IV. Y Blynyddoedd Olaf, 1844—1858.
V. Y Dyn a'i Waith.


GAN Y

Parch. RICHARD ROBERTS, B.A.,
LLUNDAIN.


*


1910.

—

Swyddfa "Cymru," Caernarfon.

# RHAGAIR.

PEN congl-faen dysgeidiaeth Robert Owen ydoedd y syniad mai cynnyrch ei amgylchiadau ydoedd cymeriad dyn. Ni raid myned ymhellach i maes na bywyd Robert Owen ei hun i ganfod mai hanner y gwir yn unig a gynhwysir yn y gosodiad hwn. Ped fae bywyd Robert Owen wedi ei ordeinio yn hollol ac yn gyfangwbl gan ei amgylchiadau materol a thymhorol, ni byddai son am dano heddyw. Buasai yn hynod ymhlith masnachwyr ei oes, y mae'n wir, ond masnachwr fyddai serch hynny. Eithr fe gafodd Robert Owen galon i gydymdeimlo â thrueni a chashau gormes; fe roddwyd iddo allu cryf i ymgodymu âg anhawsterau dyrys bywyd cymdeithasol a masnachol ei ddydd; cynnysgaeddwyd ef â llygad i weled ymhellach nag odid un o'i gyfoedion, a ffydd i gredu y byddai'r Gwir yn drech na phob Anwiredd yn y man. Yn yr herwydd, fe gollwyd y masnachwr yn y dyngarwr a'r diwygiwr. Anghofiasid y masnachwr ers talm o ddyddiau; eithr y mae y dyngarwr, ac efe yn farw, yn llefaru eto; a'i goffadwriaeth yn berarogl yn ffroenau pob un a garo ei gyd-ddyn.

Rhennir bywyd ein harwr yn dri chyfnod. Y blynyddoedd cyntaf (1771—1817) oeddynt gyfnod o baratoad. Yn y blynyddoedd hyn y gwelodd y trueni oedd yn dilyn y drefn fasnachol newydd, a'r rhyfel dinistriol ddaeth i ben gyda brwydr Waterloo yn 1815; a cheisiodd,

a daeth o hyd, yn ol ei dyb ef, i'r ffordd yr oedd yn bosibl gwella cyflwr y gweithiwr drwyddi. Rhwng 1817 ac 1843 y gorwedd cyfnod yr Apostolaeth—yn y rhan gyntaf o hono ar lafar, ac yn y gweddill mewn ymarferiad. Cyhoeddwyd ei gyfundrefn newydd ar hyd a lled Ewrob a'r Amerig; a cheisiodd roddi mynegiad gweithredol i'w syniadau drwy sefydlu pentrefi cymuniaethol a hyrwyddo y Symudiad Cydweithredol a'r Undebau Llafur.

O 1844 hyd 1858 y mae yn syrthio i ddinodedd, nid oherwydd distewi o lais y proffwyd, eithr trymhau o glustiau y bobl. Aeth Robert Owen i eithafion rhy bell, derbyniodd rai syniadau dieithr; a chydrhwng dirywiad ei feddwl ei hun, a thyfiant symudiadau mawrion ereill (sef, yn enwedig, y Symudiad Siartistaidd), collodd ei afael ar y cyhoedd; a serch na phallodd ei frwdfrydedd mawr ei hun, bu farw cyn gweled ei syniadau wedi ennill eu cyfiawn le ym mywyd y bobl.

Gwr a ymddangosodd cyn ei amser oedd Robert Owen, fel pob proffwyd arall. Y mae rhai o'r pethau y dadleuodd efe drosynt ymhlith ein sefydliadau mwyaf gwerthfawr heddyw: ac o un i un fe ddaw llawer o'i *ideals* cymdeithasol i ben; ac fe roddir iddo ei briod le (yr hwn cyhyd a wrthodwyd, ac eto wrthodir iddo) ymhlith y gwyr hynny sydd wedi gadael eu hol yn annileadwy ar ddynoliaeth ar ei thaith tua'r wlad honno y mae ei bywyd a'i phethau yr hyn y dylent fod.

## CYNHWYSIAD.

---

III. Y TRYDYDD CYFNOD, 1831—1844.


*Tud.*

i. HARMONY NEWYDD. Prynnu pentre Rapp a'i ddisgyblion. Yr ymgais a'r aflwyddiant .. .. .. .. .. .. 9

ii. LANARK NEWYDD ETO. William Allen. Anfoddlonrwydd. Ymadawiad Robert Owen .. .. .. .. .. 28

iii. YM MEXICO A'R UNOL DALAETHAU. Y fordaith. Caethwasiaeth. Owen a'r Mexicaid. Dadl Cincinnatti. Heddwch â Lloegr .. .. .. .. .. 34

iv. Y SYMUDIAD CYDWEITHREDOL. Hull, Woolwich, Devonport, Llundain. Cylchgronau .. .. .. .. 42

v. Y GYFNEWIDFA LAFUR. Safon diysgog. Llwyddiant. Y Nodau Llafur. Anhawsterau .. .. .. .. .. 57

vi. YR UNDEBAU LLAFUR. Uno'r undebau. Sosialaeth. Y grefydd newydd. Queenwood .. .. .. .. .. 69


IV. Y PEDWERYDD CYFNOD, 1844—1858.


BLYNYDDOEDD DIWEDDAF ROBERT OWEN. Hanes adfeiliad. Ynni rhyfedd. Llythyrau at ddynol ryw. Cyfarfod diwygwyr y byd. Yn Birmingham a Lerpwl. Cyrraedd adref i Gymru i farw .. 86

V. Y Dyn a'i Waith.

*Tud.*

i. Y Dyn. Ei dynerwch a'i gydymdeimlad. Ei ddychymyg, ei onestrwydd .. .. 94

ii. Ei Neges. Proffwyd na ddeallwyd gan ei oes ei hun, ond a ddeallir yn awr .. 105

iii. Ei Le. Ei ddiffyg dysg a'i ymdrech. Apostol cydweithrediad. Dileu elw. "Digon." Rhagredegwyr a dilynwyr. Gwadu cyfrifoldeb moesol. Tad Cymrawdoliaeth. Y meddyliwr a'r trefnwr 111

iv. Ei Gymunrodd. Yr Ystordy Cydweithredol. Deddfau i wella bywyd y gweithiwr. Addysg babanod. Mantell Owen. Hawl i waith ac i dâl. Yr Undebau Llafur a'r Eglwys. Coron Robert Owen. Y Cymro .. .. 126

# ROBERT OWEN.

## III.—Y TRYDYDD CYFNOD.
## 1831—1844.

### I. HARMONY NEWYDD.

[Y gwahaniaeth rhwng cynllun Robert Owen a sefydliad Lanark Newydd.—Owen yn clywed am Harmony Newydd.—Rapp a'i ddisgyblion.—Owen yn prynnu eu pentref.—Yn annerch cyfarfodydd yn Washington.—Setlo'r fargen.—Owen yn agor y sefydliad.—Llywodraeth amodol Ebrill, 1825.—Bywyd y lle.—Owen yn Lloegr.—Terfyn y tymor rhagbaratoawl.—Dylanwad Owen ar y lle.—Ymraniadau.—Dechreu anhawsterau.—Gwahanol drefniadau.—Diddymu Priodas. — Anibyniaeth Meddwl.—Dechreu y diwedd.—Y diwedd.—Achos yr aflwyddiant.—Y draul ar adnoddau arianol Owen.]

BU Robert Owen yn hir yn gweled un o'i sefydliadau cydweithredol yn llwyddiant. Credai'n gryfach, serch hynny, yn ei gynllun. Od oedd neb yn ameu ei fod yn ymarferol, ei ateb yd-

oedd,—"Deuwch a gwelwch Lanark Newydd." Ond nid oedd hyn yn rhith o ddadl dros y cynllun, cymaint ydoedd y gwahaniaeth rhwng y cynllun a'r ymarfer yn Lanark Newydd. Geilw pwyllgor Leeds sylw at hyn yn eu hadroddiad yn 1819. Yn ol cynllun newydd Owen, yr oedd y sefydliad i fod yn amaethyddol; ond gweithfaol ydoedd Lanark Newydd. Am hynny yr oedd y cynllun yn darparu 1,000 o erwau o dir ar gyfer 1,200 o bersonau; tra cyrhaeddai poblogaeth Lanark Newydd 2,500, heb nemawr dir. Yr oedd y cynllun yn ordeinio fod popeth yn eiddo cyffredin; ond yn New Lanark defnyddiai y trigolion eu henillion fel y gwelent hwy oreu. Yr oedd y pentref newydd i fod yn bedair onglog; eithr adeiladwyd Lanark Newydd mewn rhesi a heolydd. Yn ol y cynllun, yr oedd plant chwe blwydd oed i ddechreu gweithio awr yn y dydd yn yr awyr agored, ac un awr ychwanegol at hynny hyd nes y cyrhaeddent ddeuddeg mlwydd; ond yn New Lanark nid oedd y plant yn gweithio o gwbl hyd nes y byddent yn ddeng mlwydd oed.

Yr oedd gwahaniaeth yn bod mewn amryw o fân bethau eraill. Yr oedd hyn

yn angenrheidiol oherwydd fod gwahaniaeth yn natur y ddau sefydliad. Yr oedd yn rhan hanfodol o gyfundrefn Owen mai ar y tir yr oedd y sefydliadau hyn i gael eu cychwyn. Pe dadleuid felly nad oedd llwyddiant New Lanark yn brawf y byddai ei gynllun yn llwyddiant, atebai,—"Os ydyw Lanark Newydd yn cynhyrchu'r fath gymeriadau da, gymaint yn well fydd cymeriadau a ffurfir dan amgylchiadau gwell." Ond nid ydoedd yn cofio fod holl gyfansoddiad a rheoleiddiad ei bentrefi cydweithredol yn hanfodol wahanol i'r hyn ffynnai yn Lanark Newydd; ac yn ychwanegol at hyn, nid oedd yn deall gymaint elfen yn llwyddiant Lanark Newydd ydoedd ei bersonoliaeth gref ei hun.

Serch aflwyddiant pob sefydliad a seiliwyd ar ei gynllun, daliai yn dynn yn ei gred ynddo; a'r cwbl ofynnai i beri llwyddiant mawr ydoedd amgylchedd ffafriol. Yn 1824 barnodd fod y cyfleustra wedi dod iddo ddangos i'r byd ymarferoldeb ei gynllun. Yn y flwyddyn honno daeth i gyfarfyddiad ag un Richard Flower, yr hwn oedd wr o foddion, ac amaethwr o brofiad. Bu ef ar ymweliad a'r America, a derbyniodd gennad,

tra yno, gan sefydliad o ddilynwyr Rapp, i geisio gwerthu'r tir oedd yn eiddo iddynt ar lannau yr afon Wabash yn nhalaeth Indiana.

Yn nechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cododd offeiriad o'r enw Rapp i fri mawr yn Wurtemberg, a thrwy ei bregethu daeth iddo liaws o ddilynwyr, ond oherwydd yr erlid o hono gan yr anghrediniol, ymfudodd—efe a'i ddilynwyr—i'r Unol Dalaethau yn 1804, ac ymsefydlasant mewn cymdeithas ar linellau y Brif Eglwys yn ol yr hanes yn Llyfr yr Actau. Yr oedd popeth i fod yn eiddo cyffredin iddynt oll. Ymbabellasant yn gyntaf ar lannau'r afon Coneguesnig yn nhalaeth Pennsylvania. Yn 1809, penderfynasant fyw mewn annyweddiaeth *(celibacy)* mewn ufudd-dod i anogaeth yr Apostol Paul. O Bennsylvania symudasent i Indiana, ac yno ar lan yr afon Wabash codasant dreflan. Rhifent oddeutu mil. Yr oedd tir ffrwythlawn, gwastad, a hawdd ei drin, yn gorwedd oddiamgylch iddynt. Draw i'r gorllewin yr oedd rhes o fryniau ar ffurf hanner cylch,—yn gorwedd hanner milltir o'r pentref—yn llinell derfyn ar y naill ochr; ac ar y llall yr oedd yr afon. Ar

lannau hon adeiladwyd melinau, a rhoddwyd dwfr yr afon dan dreth iddynt. Yn y gymydogaeth yr oedd chwarel carreg nadd. Codwyd tai annedd, neuadd fawr i ddybenion tymhorol y lle, eglwys, melin ager, a gweithdy gwlan.

Yn ariannol yr oedd sefydliad y Rappiaid wedi bod yn llwyddiant mawr. Yr oedd eu cyfoeth yn 1804 tua phum doler ar hugain y pen. Erbyn 1825, yr oedd ganddynt ddwy fil o ddoleri'r un; neu gymaint ddengwaith a chyfartaledd cyfoeth yr holl Dalaethau ar gyfer pob dinesydd. Eithr yn feddyliol a chymdeithasol ni bu cymaint llewyrch ar eu sefydliadau.

Tua 1824 y maent eto yn dechreu aflonyddu. Nid oedd iddynt gymydogion wrth eu bodd; a blinid hwy yn ddirfawr gan anhwylder sydd gyffredin mewn gwledydd corsiog, sef y malaria. Penderfynasant adael y lle, a symud i wlad fwy dymunol. Rhoddwyd ar Flower i chwilio am brynwr, ac addawyd iddo bum mil o ddoleri am ei drafferth, os llwyddai.

Clywodd Flower am Robert Owen, ac aeth ato i gynnyg y lle iddo. Swynwyd Owen gan y syniad. Dyma le wrth ei law, yr adeiladau eisoes yn barod, y tir mewn

cyflwr da,—dyma o'r diwedd gyfle diguro i ddangos i'r byd werth ei gynllun. Cytunodd i brynu'r lle; ac er fod hynny'n aberth mawr, derbyniodd y Rappiaid ei gynnyg i'w brynu am gan mil a hanner o ddoleri.

Dyma engraifft darawiadol o fyrbwylltra Owen. Cynllun ydoedd yr eiddo ef i gyfarfod ag angenion newydd Prydain. Ond wele, yn ddisymwth, y mae yn penderfynu symud i wlad yr oedd ei holl amgylchiadau yn wahanol i rai ei wlad ei hun. Ni byddai llwyddiant y cynllun yn America yn brawf y byddai'n llwyddiant yn Lloegr, gan mor wahanol ydoedd anghenion y ddwy wlad. Y mae Owen yn syrthio i mewn a'r syniad newydd ar unwaith, ac ni bu hir amser cyn iddo groesi'r Werydd i gymeryd meddiant o'i bwrcas newydd.

Cyrhaeddodd y byd newydd ddechreu 1825, ac aeth rhag llaw i Washington. Yno cafodd ganiatad i annerch cyfarfod yn y Senedd-dy. Y mae yr argraff yn bod ymhlith bywgraffwyr Owen mai ar wahoddiad yr aelodau y traddododd anerchiad yn y cyfarfod hwn. Nid ydym yn gallu cadarnhau hynny. Y cyfan wyddom

ydyw fod Arlywydd y Talaethau, yr arlywydd etholedig, ac aelodau y Senedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Yr hen faich oedd ganddo yn yr anerchiad hwn, sef yr angenrheidrwydd am adrefniad cymdeithasol o'r sylfaen i fyny. "Yr ydych chwi, Americaniaid," meddai, "yn honni eich bod yn feddiannol ar ragorfreintiau mwy na'r eiddo unrhyw wlad, ac i'ch honiad y mae sail da. Eto chwi goleddwch rai syniadau disynwyr, megis rhoddi dyn i farwolaeth am weithredu fel y gorfuwyd iddo wneyd, a gwobrwyo gweithredoedd na feddant haeddiant o gwbl." Condemniai y gyfundrefn fasnachol, gan honni mai un o dwyll ydoedd; ac ychwanegai,—"Y mae yr arferiad o brynu'n rhad a gwerthu'n ddrud yn diraddio ac yn dinistrio." Arweiniai hyn ef i gynnyg ei feddyginiaeth neilltuol ei hun iddynt. Fel y digwyddai'n gyffredin, swynwyd ei wrandawyr gymaint, fel ag iddynt erfyn arno i draddodi ail anerchiad; ac yn yr ail gyfarfod y mae yn cyhoeddi ei gynlluniau mewn perthynas i Harmony Newydd.

Yn ystod y gwanwyn, cwblhawyd y pryniad; a chymerodd Owen feddiant o

ystad yn cynnwys 30,000 o erwau. O'r tir hwn yr oedd 3,000 o erwau dan driniaeth; yr oedd pedair ar bymtheg o ffermydd ar wahan; a 600 o erwau o dir gwrteithiedig ym meddiant tenantiaid. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd perllanau eang, a gwinllan yn cynnwys 18 o erwau. Yn goron ar y cyfan, yr oedd y pentref yn bedair onglog.

Canodd y Rappiaid yn iach i'r lle ar unwaith, ac ymsefydlasant mewn lle a alwyd ganddynt yn Economy, yn ymyl Pittsburg. Prin yr oeddynt wedi cefnu ar Harmony, pan y dechreuodd pobl heidio yno o bob man. A dyma'r camgymeriad ymarferol cyntaf. Nid oedd derbyn wyneb na detholiad yn nerbyniad y trigolion cyntaf; a derbyniwyd llawer o ddefaid duon i mewn i'r praidd. Yn ddiau, byddai ysgrifenu hanes Harmony yn fwy dymunol gwaith pe derbyniasid sefydlwyr yn meddu enw da yn unig i'r sefydliad ar y cyntaf. Yn Hydref, 1825, yr oedd yno 900 o drigolion.*

* Cymerwyd y rhan fwyaf o'r ffeithiau hyn o'r "History of American Socialisms" gan J. H. Noyes. Cafodd Noyes hwynt o'r casgliad a wnaethpwyd gan un A. J. Macdonald, o

Ar y 25ain o Ebrill, 1825, sefydlwyd rhyw fath o lywodraeth amodol. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn neuadd y pentref dywedodd Robert Owen wrth y trigolion ei fod wedi prynu'r eiddo, ac wedi dod yno i roddi ei olygiadau ar gymdeithas mewn gweithrediad. Danghosodd iddynt mai amhosibl iddynt ydoedd newid ar unwaith o gyfundrefn gymdeithasol ddireswm, i un resymol, heb ryw gymaint o baratoad. Am hynny, rhaid ydoedd myned hanner y ffordd i ddechreu. Byddai'r tair blynedd cyntaf yn gyfnod rhagbaratoawl, ac am y cyfnod hwn, enw y sefydliad fyddai "Cymdeithas Ragbaratoawl Harmony Newydd." Yr oedd y llywodraeth i fod yn nwylaw pwyllgor o'r trigolion. Yr egwyddor fawr y dygid y gymdeithas ymlaen arni ydoedd fod pawb i ystyried eu heiddo fel rhan o'r eiddo cyffredin. Yr oedd rhyddid i unrhyw berson pwy bynnag ymneilltuo pan y dewisai, a dychwelid ei eiddo neu ei werth iddo.

hanes sefydliadau cymdeithasol yn yr America. Yr oedd y Macdonald hwn yn ddisgybl i Robert Owen, a bu am yspaid yn trigiannu yn Harmony Newydd. Arfaethai gyhoeddi llyfr yn cynnwys yr hanes a gasglodd, eithr bu farw yn 1854, yn Efrog Newydd, heb ysgrifennu dim ond y Rhagymadrodd.

Yn fuan bu raid i Owen ddychwelyd i Loegr. Yn ei absenoldeb, aeth y mân orchwylion rhagddynt yn llwyddiannus. Mewn sebon a glud yn unig yr oedd y cynyrchiad yn fwy na'r defnydd. Yr oedd yno fferyllydd yn darparu meddyginiaeth rad i bawb, a chyflenwid anghenion y trigolion o'r ystordy cyffredin.

Yr oedd yn y pentref 130 o blant. Ar eu cyfer hwy, a'r holl drigolion, yr oedd pob math o ddifyrrwch. Yr oedd yno seindorf yn perthyn i'r lle. Bob dydd Mawrth cynhelid dawnsfeydd, a chyngherdd bob dydd Iau. Ond ar gyfer crefydd, nid oedd unrhyw ddarpariaeth. Ffurfiwyd pum cwmni o filwyr,* ac arferai y rheiny arddangos eu campiau unwaith bob wythnos.

Dywed Macdonald i absenoldeb Owen am gymaint o amser ar ddechreu y sefydliad effeithio arno yn dra niweidiol. Ar y llaw arall fe ddywed Sargant fod pethau wedi bod yn llewyrchus iawn yn y cyfamser, a chafodd Owen yr hyfrydwch, ar ei ddychweliad yn Ionawr, 1826, o weled Harmony mewn cyflwr teilwng o'i enw.

* Infantry, artillery, riflemen, fusiliers, veterans.

Am y naw mis cyntaf o hanes y sefydliad bu cryn lwyddiant.

Daeth y cyfnod rhagbaratoawl i derfyn disymwth. Yn fuan wedi i Owen ddychwelyd, cynhaliwyd cyfarfod, a'r canlyniad fu penderfynu rhoddi cymuniaeth *(communism)* ar droed.† Yr oedd hyn yn cymeryd lle cyn bod y sefydliad yn flwydd oed. Yr oedd rhai o'r trigolion yn gwrthwynebu hyn, ac ymneillduasant o Harmony Newydd, gan ffurfio math o is-gymdeithas rhyw ddwy filldir o'r lle. Galwyd enw'r gymdeithas yn Macluria—oddiwrth enw Maclure, ei harwr.*

Bellach yr oedd llywodraeth Harmony i fod yn nwylaw pwyllgor gweithiol, yn cynnwys chwech o aelodau, ac yn ddarostyngedig i farn yr holl gymdeithas.

† Dywed J. D. Rogers (Dict. Pol. Econ.) na chymerodd Owen ran yn y symudiad hwn. Ar ba sail, ni wyddom.

* Dywed Rogers fod mwy nag un gymdeithas o'r un natur wedi eu sefydlu y pryd hwn. Rhoddai Owen i'r cymdeithasau hyn brydlesi meithion, a rhoddai fenthyg arian iddynt yn ol 4 y cant i godi adeiladau angenrheidiol. Defnyddid yr elw i glirio'r ddyled. Yr oedd Sefydliad Maclure yn cael ei gychwyn gan arian Maclure ei hun, yr hwn arfaethasai yn bennaf peth godi ysgolion ynddo ar gynllun Pestalozzi.

Eithr, os gwir tystiolaeth Macdonald, ni pharhaodd hyn yn hir. Cafwyd llawer o anhawster i drefnu'r gymdeithas ar y llinellau newydd, a'r diwedd fu i'r trigolion ofyn i Owen gymeryd yr awenau i'w ddwylaw ei hun. Felly y bu, a dechreuwyd cyfnod o lwyddiant cyffredinol. Yn y Mawrth dilynol dywed y "New Harmony Gazette," newyddiadur wythnosol y symudiad dan olygiaeth Robert Dale Owen,† fod trefn wedi ei roddi ar bob adran o fasnach, fod y fferm yn dangos gweithgarwch egniol a dygn. Nid oedd mwyach segurwyr yn casglu yn finteioedd ar yr heolydd; a'r cyfarfodydd cyhoeddus, y rhai gynt oeddynt yn achlysuron manteisiol i arddangos gallu areithyddol, oeddynt bellach yn ymdrin yn unig ac yn effeithiol a'r amgylchiadau a goruchwylion y sefydliad. Eithr ym mis Ebrill, yr oedd rhai yn ceisio'n ddirgel rannu y sefydliad yn bedair cymdeithas, er mwyn prynnu'r lle. Gwelodd Owen y perygl orweddai yn hyn, ac y mae ar unwaith yn dewis pwyllgor o bump ar hugain i dderbyn pob aelod o'r newydd,—a'u dewisiadau i fod yn ddarostyngedig i gadarnhad Owen ei

† Daeth efe drosodd i Harmony gyda'i dad ar ei ddychweliad o Loegr yn nechreu 1826.

hun. Rhannwyd yr aelodau yn dri dosbarth: aelodau amodol, aelodau ar brawf, ac ymgeiswyr ar brawf. Pa beth ydoedd yr amcan mewn golwg wrth wneyd hyn nis gwn, oddieithr fod Owen wedi penderfynu na byddai *vested interest* gan neb yn y lle oddigerth ef ei hun. Drwy hyn yr oedd pob gallu yn aros yn ei ddwylaw ef. Addawodd, modd bynnag, hunan lywodraeth i'r trigolion ymhen tair blynedd, os byddai dwy ran o dair yn teimlo eu hunain yn atebol i hynny. Yn Mai, 1826, ymneilltuodd nifer ychwanegol o'r aelodau, a ffurfiwyd cymdeithas newydd dan enw cyfriniol a rhyfeddol, Feiba Peven,* ond cyn diwedd y mis yr oedd Harmony eto yn llawn.

Tua'r adeg hwn, bu llawer o helynt ynghylch rhannu'r eiddo: a galwyd cyfarfod o'r holl drigolion ar y 30ain o Fai. Penderfynwyd ffurfio pedair cymdeithas, yn meddu hunanreoliad, ac i drafnidio a'u gilydd drwy gyfrwng arian papur. Y mae yn amlwg fod rhyw ddylanwadau dirgel drwy'r holl amser yn ceisio gwrthweithio yn erbyn gallu Owen. Sicr ydyw

* Tybiai Noyes fod yr enw hwn yn dal rhyw berthynas a lleoliad daearyddol y sefydliad.

fod nifer yn y lle yn anfoddlawn ar ddull Owen o lywodraethu. Dechreuodd yntau wneyd bargeinion celyd a'r sefydliadau anibynnol, er mwyn, mae'n debyg, adenill peth o'r arian a gollasai.

Un o drigolion cyntaf Harmony Newydd oedd Miss Frances Wright. Ceisiodd hi sefydlu treflan, y byddai'r dyn du a'r dyn gwyn ynddi ar delerau cydradd; a byddai'r sefydliad o briodas wedi ei ddifodi ynddi. Yng Ngorffennaf, 1826, rhoddwyd yr un egwyddor i lawr yn Harmony Newydd. Ar y pedwerydd o'r mis hwnnw, pen blwydd anibyniaeth y Talaethau, cyhoeddodd Robert Owen "Anibyniaeth Meddwl" *(Mental Independence).* Yr oedd Owen yn rhoddi pwys mawr ar y ffaith ei fod yn gwneyd hyn hanner can mlynedd i'r dydd y cyhoeddwyd anibyniaeth gwleidyddol y wlad. "Yr wyf yn dweyd wrthych," meddai yn y cyfarfod ac wrth y byd, "fod dyn, hyd yr awrhon, ymhob rhan o'r ddaear, wedi bod yn gaeth i drindod o'r drygau mwyaf fu erioed mewn cynghrair i ddrygu dynoliaeth yn feddyliol a chnawdol. Cyfeirio yr wyf at eiddo personol, a chrefydd afresymol, a chyfundrefn briodasol ddisyn-

wyr. Drwy ymryddhau oddiwrth y pethau hyn a "thrwy uno ein buddiannau gwahanol, drwy ddifodi cylchrediad arian bathedig, drwy gyfnewid ein cynhyrchion ar sail llafur am lafur cyfartal, drwy roddi'n cyfoeth i sicrhau manteision cyffelyb i eraill, drwy roddi heibio yfed gwirodydd, ni fyddwn mewn modd arbennig yn dwyn oddiamgylch ddiben pob llywodraeth ddoeth a phob dyn gwir oleuedig." Gwyddai Owen yn amgen na disgwyl am lwyddiant buan, oherwydd yr anwybodaeth a ffynnai ymhlith y trigolion. Yn mis Awst geilw hwynt oll ynghyd i'w hargyhoeddi o'r buddioldeb o gyfarfod deirgwaith yn wythnosol i'r diben o dderbyn addysg. Gwnaed hynny am chwech wythnos, eithr oherwydd diffyg dyddordeb ar y naill law, ac i afiechyd oddiweddyd Owen ar y llaw arall, bu i'r ysgogiad farw.

Ar y 25ain o Awst etholwyd tri o "dictators," a diddymwyd yr holl swyddau oeddynt yn bod cynt. Eithr ni thyciodd hyn i wrthweithio'r drygau oeddynt yn prysur gynhyddu. Ar y 17eg o Fedi bu yn angenrheidiol i alw cyfarfod i ystyried rhyw gynllun i ddiwygio y gymdeithas drwyddi, ac i wella cyflwr y bobl.

Nid aeth Owen i'r cyfarfod hwn, anfonodd iddo lythyr yn cynnyg cychwyn Cymuniaeth gyda phawb pwy bynnag fyddai'n barod i ymuno a suddo eu holl eiddo yn yr anturiaeth. Yr oedd llywodraeth y cyfryw gymuniaeth i fod yn nwylaw Owen, a phum gwr o'i ddewisiad ef: a'r trefniad hwn i barhau am bum mlynedd. Eithr, erbyn hyn, yr oedd yr anfoddlonrwydd a'r ansicrwydd wedi myned yn rhy bell i'w gwella. Ymadawodd llawer o'r trigolion. Yr oedd yn amlwg fod dechreu y diwedd wedi dod.

Nid oedd Owen yn barod i addef hynny, er yr ymddengys oddiwrth ei waharddiad i ddefnyddio gwirodydd yn Rhagfyr ei fod yn gweled effeithiau niweidiol yr arferiad o yfed ar y sefydliad. Yn yr Ionawr canlynol dechreuodd yntau ddigalonni. Gwerthai dir i bersonau unigol, ac yn fuan aeth y rhan fwyaf o'r dref yn eiddo personol. Yn y *Gazette* ar y 31ain o Ionawr ymddangosodd llythyr yn cwyno oherwydd fod addysg yn gwneyd lleied o gynnydd, a bod y llafur mor galed, a'r tâl am dano yn ddim amgen na dwfr oer a bwyd sal. Yr oedd pethau yn cyflym ddisgyn i gyflwr trefydd ereill. Cychwynwyd ystordai anibynnol, codwyd *sign*

*boards* lliwiedig ar bob tu; ac mewn un rhan o'r dref yr oedd *puppet show* a *wax works* mewn bri mawr.

Erbyn Mehefin, 1827, gwelodd Owen mai oferedd ydoedd ceisio gwneyd ychwaneg o ymdrech gyda'r sefydliad. Yn y *Gazette* ar y 18fed o Fehefin y mae yn gwahodd y trigolion i gyfarfod y bwriadai ynddo ganu'n iach iddynt. Nid oes adroddiad o'r cyfarfod hwn ar gael. Ymadawodd bron yr oll o'r trigolion a gwasgarwyd hwynt. Dychwelodd y gweddill i fyw dan yr hen drefn, a bu raid i Maclure ac Owen osod a gwerthu tir a thai yn ol yr hen ddull. Ac felly y daeth ymgais fawr Owen i roddi cymuniaeth ar waith i ben.

Beth ydoedd achos yr aflwyddiant? Y mae llawer o wahaniaeth barn yn bod parthed hyn. Barn Noyes ydoedd mai ar y gwirodydd yr oedd y bai. Tystia gwr o'r enw Samson mai gwalch o'r enw Taylor ydoedd yr achos, oherwydd iddo dwyllo Owen mewn amryw ffyrdd, a chodi distyllfa yn agos i'r sefydliad. Y mae yn ddiddadl fod llawer o wirionedd yn hyn, a bod gan ddylanwadau dinistriol chwisgi lawer i'w wneyd a'r ymraniadau gymerasant le. Tybiai eraill mai gwendid y lle ydoedd na

chadwyd at y cynllun gwreiddiol. Bu un Paul Brown am flwyddyn yn y lle, a dywed na welodd ddim byd tebyg i eiddo cyffredin yno. Yn ddiau, y camgymeriad mawr ydoedd cychwyn y lle ar y dechreu. Yr oedd amgylchiadau y byd newydd yn hollol wahanol i eiddo yr hen. Yr ail gamgymeriad ydoedd derbyn pawb i mewn, heb ymarfer doethineb a gwneyd ymholiadau parthed y bobl ddeuent yno. Dyna farn mab hynaf Owen.* Y canlyniad oedd "na fu yno weithgarwch anhunanol, nac ymddiriedaeth y naill yn y llall, na phrofiad ymarferol, na gweithrediad unedig oherwydd diffyg undeb mewn barn,"—ac ar y creigiau hyn yr aeth y llong gymdeithasol yn ddrylliau. Ac fel y dywed John Pratt yn yr "*Oneida Circular*,"—"Yr oedd atdyniadau mewnol y gymdeithas yn rhy wan i ddal yn erbyn atdyniadau y byd oddiallan." Dywedodd Owen ei hun mewn blynyddoedd wedi hynny ei fod wedi prynu'r tir ar y ddealltwriaeth fod y Rappiaid yn aros yno hyd nes y byddai'r trigolion newydd wedi dysgu oddiwrthynt eu trefn a'u cynllun-

* Threading my Way, p. 228.

iau, eu harferion a'u gwybodaeth brofiadol.*

Yr oedd Owen wedi gwario deugain mil o bunnau ar Harmony Newydd. Ar ysgwydd Owen y cynhaliwyd y lle drwy'r holl amser. Nid ydyw methiant Harmony Newydd felly yn ddadl yn erbyn y cynllun cymuniaethol; tybia cymuniaeth fod yr eiddo a'r elw yn cael ei ranu'n gyfartal; ond ni fu cynnyrch ac ni wnaed elw yno gwerth son am danynt: a derbyniai'r gweithwyr nid cyflog, eithr elusen. Bu y baich mor drwm ar Robert Owen fel y bu raid iddo dderbyn cynnyg ei feibion i ddychwelyd iddo y cyfrannau a roddasai iddynt yn y gwaith yn Lanark Newydd. Rhoddodd yntau i'w feibion dir ar ystad Harmony Newydd o werth tua deng mil ar hugain o ddoleri, ar yr amod fod iddynt neilltuo iddo ef dri chan punt yn flynyddol o ardreth y tir. Bu y blwydd dal hwn yr unig foddion cynhaliaeth feddai Robert Owen ym mlynyddoedd diweddaf ei oes.†

* New Moral World, Oct. 13, 1839.
† Dale Owen, "Threading my Way," p. 262.

## II. LANARK NEWYDD ETO.

[William Allen—Ei wrthwynebiad i gynllun addysg Lanark Newydd—Cytundebau newydd—Anfoddlonrwydd Owen—Ymneilltuad Owen—New Lanark ar ol dyddiau Owen.]

DECHREUODD Robert Owen ollwng ei afael yn New Lanark gyda chychwyniad ei yrfa fel apostol y Gymdeithas newydd. Eithr nid hyn fu'r prif achos i Owen ymadael yn derfynol â Lanark Newydd. Yr oedd un o'i bartneriaid yn un o'r Crynwyr—sef Allen,—yn perthyn i'r sect fanylaf o honynt; ac anghydfod âg Allen a barodd i Owen ymryddhau o'r gwaith yn Lanark Newydd. A chofio pwy ydoedd ei bartneriaid, syn ydyw ddarfod i'r undeb rhyngddynt barhau cyhyd. Dywed Owen am Allen, fod gwrychoedd trwchus o ragfarn Crynwraidd yn amgylchu ei feddwl; ystyriai gynllun addysg Lancaster yn berffaith, a bod hwnnw'n afiach yn y ffydd a geisiai wella arno. Dadleuai fod yr ymarferiadau milwrol yn anysgrythyrol, y gerddoriaeth yn oferedd, a'r ddawns yn ysgymunbeth. Ni ddarfu i Allen, modd bynnag, wneuthur

unrhyw wrthwynebiad o bwys i gynllun Owen o lywodraethu Lanark Newydd hyd 1820. Gellir yn ddiau briodoli arafwch Allen i ddylanwad John Walker, yr hwn, er ei fod yntau yn Grynwr, ydoedd yn eangach ei syniadau nag Allen. Yr oedd Allen ei hun hefyd yn llwyr argyhoeddedig o onestrwydd ac ewyllys da Robert Owen. Ar ol 1820, dechreua bwyso ar Owen i fabwysiadu cynllun addysg mwy cyson a'i syniadau ef, ond nid oedd Owen yn foddlawn i wneyd unrhyw gyfnewidiad. Ym mis Awst, 1822, aeth Allen a Foster i Lanark Newydd, a bu cryn ddadleu a ydoedd yr addysg a gyfrenid yno yn unol â'r cytundeb a wnaethpwyd ar y dechreu. Ac yn awr, am y tro cyntaf, y mae Owen yn cydsynio i wneyd cyfnewidiad, a chaniataodd i'r ddau Grynwr, ynghyd a Gibbs, osod i lawr gynllun newydd a dewis athrawon newydd.

Yn y flwyddyn ddilynol, cododd anghydfod arall, ac yn Ionawr 1824, ffurfiwyd cytundeb o'r newydd. Yr oedd un John Daniel i fod yn athraw yn yr ysgol, ac yr oedd i ddysgu'r plant am deirawr yn y dydd ag eithrio'r Sabbath. Am ei lafur yr oedd i dderbyn £150 y flwyddyn. Yr

oedd y cwmni'n ymryddhau o ddarparu moddion i ddysgu dawnsio, ac ailtudiwyd pob cerddoriaeth oddigerth canu emynnau. Trefnwyd darlithiau gwyddonol i'r gweithwyr; ac fe wnaed cyfnewidiad yng ngwisg y trigolion, sef newid y *kilts* am lodrau. Ordeiniwyd hefyd ddarllen cyson o'r Ysgrythyr, a moddion gras unwaith yn wythnosol.

Felly y bu pethau am ddwy flynedd. Wedi hynny, caethiwyd Robert Owen ymhellach. Gorfuwyd iddo dderbyn llai o ymwelwyr i'r lle, gan eu bod yn rhwystr i'r gwaith. Gwnaethpwyd cyfnewidiad yn yr oriau gweithio. Penderfynwyd adeiladu ychwaneg o dai, i sicrhau cyflenwad helaethach o ddwfr, i ddarparu moddion ymolchi rhagorach, i sefydlu cartref i'r hen a'r methedig, a chychwyn eto fanc cynilo.*

Nid oedd teleraau'r cytundeb hwn wrth fodd Owen, a gwnaeth ei feddwl i fyny i neilltuo o'i swydd a rhoddi ei ran yn y lle i fyny. Cytunodd i aros, modd bynnag, hyd nes y delai un Charles Walker yn gymwys i reoli'r gwaith.

* Pa beth a ddaeth o'r banc cynilo cyntaf nis gwn.

Yn y cyfamser yr oedd Robert Owen ynghanol helynt New Harmony. Pan aeth i'r Talaethau gyntaf, gadawodd ei fab Robert Dale i ofalu am Lanark Newydd; ond pan yr aeth yno yr ail waith, aeth Robert Dale gydag ef, yn Ionawr 1826. Ar ol i Harmony Newydd ddod i ben, dychwelodd Owen i Brydain, ac ymneillduodd o New Lanark yn 1829. Buasai hyn wedi digwydd cyn y darfu oni bai fod Owen yn perchen y rhan fwyaf o'r cyfrannau yn y gwaith; ac nid gorchwyl bychan ydoedd talu iddo am danynt. Ac felly y torrodd Owen ei gysylltiad â Lanark Newydd.

Ni ddarfu i'r lle ddisgyn ar unwaith o'i wynfyd; eithr parhaodd yn well ei amgylchiadau, am amser, na'r un dref arall. Serch mai gorchwyl cyntaf y perchenogion wedi cael gwared o Owen ydoedd gostwng cyflogau, a chodi'r oriau, bu gair da i Lanark Newydd am flynyddoedd lawer. Gwnaethpwyd peth cyfnewidiad yn yr addysg a roddid yn yr ysgolion, ac yn ei anerchiad i Gymdeithasau Ysgolion Babanod yn 1830, dywed fod yr ysgol fabanod yn Lanark Newydd wedi peidio a bod fel ysgol resymol, er fod yr ysgolion

ereill yn parhau yn llewyrchus. Yn 1833, dywed y *Glasgow Free Press* fod y rhannau addurniadol o'r addysg wedi diflanu, ond dysgid y plant eto i ganu a dawnsio. Sut y mae cysoni hyn â'r cytundeb y daethpwyd iddo parthed canu a dawnsio, nis gwn. Yn 1833, cyflwynwyd adroddiad am Lanark Newydd i'r ail Gyfeisteddfod Seneddol ar Weithfeydd, gan feddyg lleol. Dywed fod y tai yn lân, y cedwid hwynt yn ofalus, a bod cysgodlenni *(blinds)* ar ffenestri deheuol y tai. Telid sylw mawr i addysg y plant cyn eu derbyn i'r melinau. Dysgid hwynt i ddarllen, ysgrifennu, a chyfrif; dysgent ddaearyddiaeth, cerddoriaeth, a dawns. Yr oedd yr ysgoldai yn eang ac iach; a danghosai'r plant lawer o allu mewn rhai cyfeiriadau; ac edrychent ymlaen at y dydd pan y caent ddechreu gweithio. Yr oedd tri chant o'r plant hynaf yn talu grot yr wythnos am eu haddysg, a chant a hanner o'r rhai ieuengaf yn ei dderbyn yn rhad.

Yr oedd y gwehyddion oll yn wragedd, oddigerth naw o hen weithwyr ffyddlawn. Yr oedd saith o'r naw wedi priodi merched o'r felin, a rhyngddynt bu iddynt 35 o blant, ac o'r rhain yr oedd 27 yn fyw.

Cofnodid y ffaith hon fel prawf o'r amgylchedd iachus y gweithid ynddi. Teg ydyw dweyd gyda golwg ar hyn fod cynnydd mawr wedi cymeryd lle ym mhobman yn y nifer o fenywod weithiai yn y melinoedd, a lleihad cyfatebol yn nifer y dynion. Nid oedd Lanark Newydd ar ei phen ei hun yn hyn.

Yn 1854, canmola Owen y goruchwyliwr a'i dilynodd yn Lanark Newydd, a dywed nad aeth y pentref yn hollol yn sefydliad i wneyd arian yn unig.

## III. YM MEXICO A'R UNOL DALAETHAU.

[Mexico.—Robert Owen yn penderfynu myned yno.—Y Fordaith.—Barn Owen ar Gaethwasiaeth.—Jamaica.—Dinas Mexico. — Owen yn egluro ei gynllun i'r awdurdodau.—Owen ar berthynas Lloegr a'r Unol Dalaethau.—Owen yn y Talaethau.—Y ddadl gyda Campbell yn Cincinnati—Owen yn dwyn Lloegr a'r Talaethau i well dealltwriaeth.]

YN haf y flwyddyn 1828, rhoddodd Llywodraeth Mexico dir i ryw rai i ymsefydlu arno, ac anfonodd y bobl hyn at Robert Owen i geisio ganddo eu cynorthwyo i osod i lawr drefedigaeth yn y wlad honno. Yr oedd Owen erbyn hyn wedi ymryddhau o bob cyfrifoldeb, a chymerodd at y peth o ddifrif. Aeth at Rocafuerte, cennad Mexico yn Llundain, ac ar ei gais, tynnodd allan ddeiseb i'w chyflwyno i Lywodraeth Mexico. Wedi cyfieithu y ddeiseb i'r Hispaeneg anfonwyd hi ymaith i'r awdurdodau ym Mexico, yn yr Hydref dilynol, gyda llythyr o gymeradwyaeth oddiwrth Rocafuerte. Gwyddai Owen mai gobaith bychan fyddai i'r ddeiseb gael ystyriaeth, heb anogaeth bersonol tucefn iddi, a phenderfynodd ei dilyn. Wedi cael llythyrau cyflwyniad i

Lywodraeth Mexico gan Rocafuerte; i Bolivar, gan gennad Columbia yn Lloegr; ac i Negesydd y Talaethau ym Mexico, hwyliodd o Falmouth am Ddeheudir America. Cafodd fordaith gysurus. Eithr drwyddi ymroddodd i lafur diwyd. Yr oedd wedi addaw cyfarfod y Parchedig Alexander Campell mewn dadl yn Cincinnati ar brawfion Cristionogaeth yn yr Ebrill dilynol, a rhaid ydoedd parotoi yn ofalus ar ei chyfer; ac yn ystod y fordaith tynnodd allan gyfres o ddeddfau gwladol cyson â deddfau y natur ddynol.*

Y mae un peth yn werth ei gofnodi ynglyn a'r fordaith. Pan y cyrhaeddodd y llong San Domingo, prif ddinas ynys Hayti, sylwodd Owen fod poblogaeth y lle —pobl dduon oll—wedi eu gwisgo'n well, yn lanach, yn fwy trefnus, yn fwy tyner a moesgar, yn fwy diofal ac yn well eu hamgylchiadau, na gweithwyr gwledydd mwy gwaraidd. Yr oedd y bobl hyn yn rhydd. Ond pan ddaeth i Jamaica, lle yr oedd y boblogaeth ddu yn gaethion, gwelodd yno bron yr un peth. Yr oedd yn nodweddiadol o Owen iddo dynnu casgliad terfynol ar unwaith oddiwrth yr hyn a welodd.

* Co-operative Magazine, iii. 187.

Dadleuai, gan fod cystal darpariaeth ar gyfer anghenion tymhorol y bobl, mai cam â hwynt fyddai newid eu cyflwr; ac am hynny gwrthododd gefnogi'r symudiad er rhyddhau'r caethion. Y camsyniad sylfaenol a wnaeth ydoedd anghofio yr hyn y pwysa efe gymaint arno, mai nid ar fara yn unig y bydd byw dyn. Nid oes dim pwys i'w roddi ar ei farn ychwaith, am na chafodd amgen na phrofiad byrr ac arwynebol cyn ei ffurfio. Pe gwelsai amgylchiadau'r caethion yn y meusydd cotwm, diau y buasai ei olygiad yn wahanol. A daeth cyn diwedd ei oes i weled ei gamgymeriad.

Yn Jamaica cyfarfyddodd â hen gyfaill iddo—y Llynghesydd Fleming, yr hwn a'i derbyniodd yn galonnog. Rhoddodd iddo hefyd lythyr cyflwyniad i Esgob Puebla, yr unig esgob oedd yn Mexico y pryd hwnnw. O Jamaica hwyliodd i Vera Cruz, ac oddiyno i Jalapa. Yno cyfarfyddodd ei hen gydymaith Maclure, yr hwn oedd a'i wyneb tua Mexico ar yr un neges ag Owen. O'r lle hwn, darfu i'r Cadfridog Sant Anna anfon gydag Owen gatrawd o filwyr i'w hebrwng i Puebla, sedd yr esgob unig. Cafodd fod y gwr

hwnnw yn wr dymunol, ac enillodd ei gydsyniad â'i gynllun cymdeithasol.

Oddiyno, aeth i ddinas Mexico. Yma arhosodd gyda masnachwr o Loegr o'r enw Exter, yr hwn oedd yn berchennog eiddo mawr yn y wlad. Drwy Mr. Exter, daeth Owen i adnabod rhai o aelodau'r Llywodraeth. Cyflwynwyd Owen i Packenham, y cennad Seisnig, yr hwn wedi hynny a'i cyflwynodd i Victoria, arlywydd y wlad. Eglurodd Packenham gynllun Owen i'r Arlywydd, a dywedodd yntau fod y peth eisoes wedi bod dan sylw, a bod y Llywodraeth wedi penderfynu rhoddi i Owen ddarn o dir gan milldir o led ar oror Mexico a'r Unol Dalaethau. Yr unig rwystr ydoedd fod proffesu Pabyddiaeth yn amod dinesyddiaeth yn y wlad. Agos i bum' mlynedd cynt pasiwyd deddf i'r perwyl, ac nid oedd gan y Llywodraeth hawl i'w diddymu hyd nes y delai y pum mlynedd i ben. Yn y gwanwyn, disgwyliai'r Llywodraeth allu ei dileu, ac yna byddai'r ffordd yn agored i Owen.

Tra yn Mexico ymddiddanodd Owen lawer â Packenham, a Poinsett, negesydd yr Unol Dalaethau, parthed perthynas y naill wlad i'r llall. Pe byddai i'r ddwy wlad, meddai Owen, ddod i well dealltwr-

iaeth a'u gilydd, a ffurfio undeb agos a chryf, gallent sicrhau heddwch yr holl fyd; ac ymhellach, gallent roddi'r fath gyfeiriad i'r cynnydd cyflym mewn gwyddoniaeth a pheirianyddiaeth, fel ag i sicrhau dosraniad mwy cyfiawn o'r elw mawr cynhyddol rhwng yr holl bobl. Gwnaeth hyn argraff ddwfn ar feddwl Poinsett, ac ar ei gyfeillion yn Washington. A dyma eto un o hawliau Owen i sylw arbennig,—efe ydoedd rhagflaenydd symudiad sydd heddyw'n fawr ei fri, sef y Cynghrair Anglo-Sacsonaidd.

I dreulio'r amser hyd nes y symudid yr anhawster crefyddol, aeth Owen i'r Unol Dalaethau. Hwyrach mai yma, ac nid eto, y dylid cofnodi na ddychwelodd Owen i Fexico. Fe ddymchwelwyd y Llywodraeth gan y gallu Pabyddol, a chymerwyd ei lle gan un arall nad adwaenai Owen, cyn iddi allu diddymu'r ddeddf oedd wedi rhwystro cychwyniad y drefedigaeth. Fe barhaodd y gallu Pabyddol i feddu'r flaenoriaeth ym Mexico hyd flwyddyn marwolaeth Owen (1858) pan y dymchwelwyd ef gan Benito Juarez.

Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf o hanes Harmony Newydd, bu Owen ar wibdaith yn Ewrob. Ar ei ddychweliad i'r

America traddododd yn New Orleans ddarlithiau ar gamsyniadau crefyddol. Yr oedd adroddiadau camarweiniol o'r cyfarfodydd hyn yn ymddangos yn y newyddiaduron, a daeth Owen o hyd i'r ffaith mai gweinidogion y lle oedd awdwyr yr adroddiadau hyn. Mewn canlyniad heriodd hwynt i'w gyfarfod mewn dadl, a rhoddodd i lawr ddeuddeg o osodiadau fel pynciau dadl. Ni dderbyniwyd yr herr; ond tra y digwyddasai hyn yn New Orleans, yr oedd Dr. Underhill, un o ddigyblion Owen, wedi herio y Parch. Alexander Campbell o Bethany, Virginia, i ddadl. Gwrthododd Campbell gyfarfod Underhill, ond cynygiai gyfarfod Owen ei hun, yn Cincinnati. Wedi ymdrafod y peth, cytunodd y ddau i gyfarfod yn y ddinas honno yn yr Ebrill dilynol. Ac yn awr, wedi ymadael o Mexico, cyfeiria Owen ei gamrau i Cincinnati i gyflawni ei addewid. Ar y daith arhosodd bum niwrnod yn Harmony Newydd. Dechreuodd y ddadl ar y 13eg o Ebrill, a pharhaodd am wythnos. Cynhelid dau eisteddiad mewn diwrnod, a llywyddid y cyfarfodydd gan saith o gymedrolwyr. Cymerwyd i lawr yr areithiau mewn llaw ferr gan wr o'r enw Sims, yr hwn a dderbyniodd gan punt am ei lafur. Cyhoeddwyd

y cyfan mewn cyfrol fawr a chedwir y llawysgrif wreiddiol yn Llyfrgell Cincinnati.*

O'r braidd y mae yn werth dadansoddi y pentwr anelwig o fater gynhwysir yn y gyfrol. Yr oedd Owen byth a beunydd yn crwydro oddiwrth ei destyn; a phrotestiodd Campbell yn erbyn iddo egluro ei "ddeddfau natur" am yr unfed waith ar ddeg. Ar y llaw arall yr oedd Campbell yn hynod alluog i guddio ei feddwl mewn llifeiriant o eiriau. Ni pherthyn i'r ddadl hon unrhyw arbenigrwydd na pherthyn i bob dadl gyhoeddus o'r un natur. Ar y cyfan dygwyd hi ymlaen yn foneddigaidd a moesgar o'r ddwy ochr; ac fel y digwydda'n gyffredin ar y cyfryw achlysuron, hawliai pob un o'r ddwy blaid yr oruchafieth.

Aeth Owen o Cincinnati i Wahington i geisio trefnu'r ffordd i ddwyn yr Unol Dalaethau a Lloegr i gyfathrach agosach. Yr oedd Van Buren, un o aelodau y Llywodraeth, eisoes wedi clywed am Owen gan

* Gwerthodd Owen ei gyfran o'r elw o gyhoeddi y llyfr i Campbell. Aeth drwy ddau argraffiad, Bethany, Va. 1829, Llundain 1839. Cynhwysa y cyfrolau atodiadau gan y ddau ddadleuwr, a chymer Owen y cyfle, fel arfer, i son am ei gynllun i wella amgylchiadau a chymeriadau dynion.

Poinsett, a chytunai mor llwyr ag Owen fel yr oedd y ddau bron yn byw gyda'u gilydd. Drwy Van Buren, cafodd wahoddiad i giniawa gyda'r Arlywydd Jackson, "Old Hickory," fel y gelwid ef. Distaw iawn oedd Jackson, eithr cafodd Owen ef yn dra awyddus am undeb gwirioneddol â Lloegr, er mwyn hyrwyddo achos rhyddid drwy yr holl fyd. Yna dychwelodd Owen i Loegr, ac aeth ar unwaith at yr Arglwydd Aberdeen. Sicrhawyd ef gan y gwladweinydd hwnnw nad oedd dim rhwystr ar ffordd dealltwriaeth gwell, pe deuai cennad y Talaethau ato gyda chyfarwyddiadau yng nghyfeiriad heddwch. Er llawenydd mawr Owen, dygwyd yr hyn oedd yn ei galon i ben: ac o'r adeg honno bu dealltwriaeth llwyr rhwng Lloegr a'r Talaethau am beth amser. "Yr oedd yr ymgais hwn o eiddo Owen yn adlewyrchu clod ar ei ewyllys da, a'i allu gwladwriaethol. Cadarnha'r farn ei fod yn meddu gallu i ddylanwadu ar bersonau yn yr uchel leoedd gwleidyddol. Yr oedd ei ymroddiad, ei gywirdeb, ei dymer gwastad, yn ennill iddo ymddiried gwyr fel yr Arglwydd Aberdeen, serch fod ei syniadau cymdeithasol yn gasbeth ganddynt."†

† Sargant.

## IV. Y SYMUDIAD CYDWEITHREDOL.

[Dechreuad Cydweithrediad—Hull—Woolwich, Devonport—Yr "*Economist*"—Cymdeithas yr Argraffwyr—Cymdeithas Gydweithredol Llundain 1825—"*Co-operative Magazine and Monthly Herald*"—Y symudiad yn myned rhagddo — Y gymdeithas ganolog 1827—Brighton—Dr. King a'r "*Co-operator*"—Ystadegau—"*The Associate*"—Y Gymdeithas Brydeinig er lledaenu gwybodaeth gydweithiol 1829—Y Symudiad yn 1832—Dylanwad Owen ar y Symudiad—Yn darlithio yn y Mechanics' Institute—Testynau y darlithiau—Y "*Crisis*"—Y cynhadleddau—Syniad Robert Owen am y symudiad—Y cyfnod arwrol—Difaterwch gwleidyddol.]

PAN y dychwelodd Robert Owen i Loegr o'r Amerig, cafodd fod ei syniadau wedi dwyn ffrwyth mewn ffordd anisgwyliadwy. Yn ei adroddiadau yn 1817—1823, anogasai weithwyr ac ereill i wneyd eu holl gyfalaf yn un gronfa, ac i ethol pwyllgor i roddi'r cyfalaf ar waith fel ag i sefydlu pentrefi ar ei gynllun ef. Ac o'r awgrym hwn y daeth cydweithrediad mewn masnach yn un o sefydliadau llwyddiannus yr oes hon.

Yr oedd ereill cyn Owen wedi awgrymu syniad cydweithrediad, ac wedi ei roddi mewn ymarferiad. Yn Hull, mor fore a'r flwyddyn 1775, yr oedd cymdeithas wedi ei sefydlu i gyflenwi angenrheidiau bywyd am brisiau llai na'r rhai a ofynid yn gyffredin.* Deliai'r gymdeithas hon mewn yd a blawd yn unig, ac er mai bechan ydoedd, bu fyw yn hir. Daliodd ei phen i fyny pan yr oedd ereill wedi diflannu; ac wedi cael adnewyddiad nerth pan y dygwyd cydweithrediad i fri wedi hynny yn 1844, cynhyddodd yn fawr ac erys hyd heddyw.

Yn Hydref, 1806, ymunodd 26 o weithwyr yn Arf-weithfa Woolwich i wrthwynebu gofynion afresymol y masnachwyr yno. I ddechreu, cyfranasant hanner gini yr un, a phrynasant fustach ym marchnad Smithfield. Drwy hyn, galluogwyd hwynt i brynnu cig am rôt a dimai'r pwys, tra talent gynt i'r cigydd naw ceiniog. Yn naturiol penderfynwyd ehangu'r ffurf hon o brynu lluniaeth, a daeth tê a bara i mewn i gylch eu marsiandiaeth. Ond pan y daeth y rhyfel Ffrengig i ben, gwasgarwyd hwynt, a

* Manchester Co-operator, Cyf vii. tud. 357.

daeth eu cydweithrediad i derfyniad anamserol.*

Yn 1815 dechreuwyd cydweithredu yn yr un ffordd yn Devonport. Agorwyd masnach mewn bara, ac adeiladwyd melin flawd yn Ivybridge, dair milltir ar ddeg o'r dref. Yna ychwanegwyd masnachu mewn glo. Y peth hynod ynglyn â'r gymdeithas hon, ydoedd mai hi fu bron yr un gymdeithas lwyddiannus yn rhoddi coel *(credit)*.

Yn Ionawr, 1821, gwnaeth yr "Economist" ei ymddangosiad. Amcan y cylchgrawn hwn ydoedd egluro'r gyfundrefn gymdeithasol newydd, a'r syniad o undeb i wella amgylchiadau y gweithiwr, tra yn aros yn ei waith presennol. Gwrthodai y golygydd dderbyn syniadau crefyddol Owen, a rhai o'i olygiadau gwyddonol; a chyfyngai ei sylw i agwedd ymarferol materion cymdeithasol.†

Yn swyddfa'r cylchgrawn hwn‡ cyfarfyddai nifer o argraffwyr, y rhai yn 1820 a ffurfiasant "Gymdeithas Gydweithredol a Darbodol." Yr oeddynt yn cyfarfod i

* The Economist, ii., 170.
† The Economist, i., 106.
‡ 158, Strand, W.C.

ymdrin ar y syniadau newydd, ac o'r diwedd penderfynasant eu rhoddi mewn gweithrediad. Bwriedid ffurfio cymdeithas o weithwyr yn Llundain yn cynhwys dau gant a hanner o deuluoedd. Yr oedd y rhai'n i fyw dan yr un tô, neu mewn anedd-dai cyfagos. Gofynid i bob teulu dalu punt yr wythnos i gronfa gyffredin. Disgwylient drwy eu cynllun allu arbed £7,780 yn y flwyddyn. Darparai eu cynllun ystafell gyffredin i goginio a bwyta, a lladd-dy a phobty cyffredin iddynt oll. Bellach, yn lle gweithio er elw i ereill, yr oeddynt am ddechreu gweithio er eu mwyn eu hunain.

Methodd yr ymgais yn y ffurf hwn. Yna ceisiwyd cychwyn ar gynllun llai. Penderfynwyd fod i bob aelod danysgrifio coron yr un i brynu *stock*, ac yna ei werthu am bump y cant uwchlaw'r gost gwreiddiol er mwyn talu'r treuliau. Nid oedd hyn ond megis cam yng nghyfeiriad y cynllun cyflawnach.

Yn yr un flwyddyn, cychwynwyd cymdeithas yn Newcastle, dan nawdd y Crynwyr.* Yn Glasgow agorwyd pobty cydweithredol.†

* The Economist, p. 268.
† The Manchester Co-operator, iii., 102.

Araf ydoedd tyfiant y symudiad yn y dyddiau hyn. Yn 1824 cyfarfyddai nifer o weithwyr mewn ystafell yn Burton Crescent, Llundain, i ymdrin ar bynciau mawr cyd-ymdrech a chymdeithas. Gwahoddid y cyhoedd yn gyffredinol i'r cyfarfodydd hyn. Yn fuan symudwyd i le mwy canolog—i ystafell yn Chancery Lane. Dywed John Stuart Mill‡ iddo fod yn dadleu yn frwd a'r gymdeithas yn y lle hwn. O Chancery Lane symudwyd i Red Lion Square.

Dyma, mae'n debyg, gychwyniad Cymdeithas Gydweithiol Llundain (1825). Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol am yspaid,—ac yn fuan daethpwyd i gysylltiad â chymdeithasau cydweithredol yn y wlad, a dechreuwyd werthu yn Llundain y nwyddau a gynhyrchid gan y cymdeithasau hynny.

Yn Ionawr, 1826, ymddanghosodd y *Co-operative Magazine and Monthly Herald*, a bu fyw am bedair blynedd mewn gwahanol ffurfiau. Rhydd y cylchgrawn hwn esiamplau rhyfedd o'r sylw delid i bethau hollol amherthynasol gan gydweithredwyr ym mhrif oesoedd y sym-

‡ Autobiography, ii., 113.

udiad. Yr oedd pob math o ddyn a chanddo *fad* mwy gwirion na'r cyffredin yn cael marchogaeth ar y symudiad, a bu llawer awel dysgeidiaeth ryfedd yn chwythu ar y cydweithredwyr yn y dyddiau tywyll hynny.*

O 1826 ymlaen, cymer y symudiad gamrau breision rhagddo. Yr oedd sefydliadau aneirif yn cael eu gosod ar droed. Yn Cork, yn y flwyddyn honno, sefydlwyd cymuniaeth gydweithiol ar ddarn o dir saith milltir o'r dref. Ond oherwydd i addewid neilltuol gael ei dorri methodd yr anturiaeth.

Yn Ionawr, 1827, ymddanghosodd traethodyn bychan — "Do for Yourselves,"—wedi ei ysgrifennu a'i argraffu gan un Julian Hibbert, yr hwn oedd wr o foddion.† Anogai ffurfio rhyw fath o gymdeithas ganolog, a chawn fod cymdeithas felly wedi ei sefydlu mewn canlyniad.‡ Yr oedd aelodau pob cymdeithas i danysgrifio o geiniog i dair yn wythnosol, a phan y

* Am adroddiad difyr am y gwahanol syniadau dieithr y ceisiwyd eu himpio ar y Symudiad Cydweithredol, gweler G. J. Holyoake, "History of Co-operation," i., 119—121.

† Holyoake, Hist. Co-op., i., 122.

‡ Co-op. Magazine, ii. pp. 28, 226.

cyrhaeddid swm digonol, yr oedd ganddynt hawl i ddewis un allan o bob hanner cant neu gant i fynd i gymuniaeth newydd a sefydlid drwy y gronfa a gesglid. I ddwyn hyn oddiamgylch mewn modd ymarferol, cyfarfyddodd ychydig weithwyr yn West Street, Brighton, ar Ebrill 27ain. Y maent yn ffurfio cymdeithas fasnachol, a chymaint fu'r llwyddiant fel yr aeth eu haelodaeth i fyny mewn chwe mis o ddeg ar hugain i ddau gant.||

Ni bu'r gymdeithas hon heb ei hanhawsterau. Bu un ymraniad tra niweidiol, ond cafwyd yn y cyfwng hwnnw gefnogaeth un gŵr fu'n foddion i roddi bywyd yn y symudiad drwy yr holl wlad. Yr oedd yn Brighton feddyg o'r enw King, brodor o Ipswich. Derbyniasai ei addysg, ac enillasai hynodrwydd fel ysgolor, yng Nghaergrawnt. Gŵr addfwyn tyner ydoedd, a meddai safle uchel fel meddyg. Clywodd am y symudiad ym mhlith gweithwyr Brighton, a rhoddodd gynhorthwy iddynt mewn ffordd effeithiol drwy gychwyn y "Cydweithredwr." Hyd yn hyn, yr unig gylchgrawn o bwys ydoedd y *Co-operative Magazine*, ac yr

|| Ibid ii., 420, iii. 42.

oedd hwn yn chwe cheiniog yn y mis. Ymddanghosodd y "Cydweithredwr" gyntaf ar y 1af o Fai, 1828, a pharhaodd hyd y 1af o Awst, 1830. Papyr bach dimai ydoedd, yn cynnwys pedair tudalen; ac iddo y mae yn rhaid priodoli lledaeniad rhyfeddol syniadau cydweithiol yn y dyddiau hynny. Ysgrifenid ef mewn arddull syml brydferth; yr oedd ei ddysgeidiaeth yn eglur; a'i awgrymiadau yn hynod ymarferol, ac ni ddanghosid unrhyw ddigter na gelyniaeth tuag at rannau ereill o gymdeithas. Gwnaeth wasanaeth mawr drwy bwysleisio hunan-ymddibyniaeth, a gwerth dechreuadau bychain.*

Fel engraifft o werth y "Cydweithredwr," gellir crybwyll un ffaith—sef i gopi wedi ei rwygo a'i ddifwyno wneyd ei ffordd yn ddamweiniol i Halifax, a bod yn foddion cychwyn cymdeithas gydweithredol yn y dref honno. Pan y cyhoeddwyd rhifyn cyntaf y "Cydweithredwr" ar y 1af o Fai, 1824, yr oedd pedair cymdeithas yn bod, sef un yn Llundain, dwy

* Bu King farw yn Brighton yn 1865, wedi gweled y tân cyntaf yn diffoddi, ac yna yn cael ei ail gynneu gan y "Rochdale Pioneers" yn 1844.

yn Brighton, ac un yn Worthing. Gwelir pa gynnydd fu oddiwrth y rhestr isod,—

"*Cydweithredwr.*"

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd, 1828 ... ... | 7 | o gymdeithasau |
| Ionawr, 1829 ... ...... | 12 | ,, |
| Mawrth ... ... ......... | 31 | ,, |
| Ebrill ... ... ........... | 56 | ,, |
| Mai ... ... .............. | 63 | ,, |
| Awst ... .... .............. | 70 | ,, |
| Tachwedd ... ... ........ | 120 | ,, |
| Rhagfyr ... ... ......... | 130 | ,, |
| Chwefrol, 1830 ... .... | 172 | ,, |
| Awst ... .................. | 300 | ,, |

Yr oedd gwahaniaeth yn bod yn null gweinyddiad rhai o'r cymdeithasau hyn; ond sicrheir ni fod yr oll o honynt yn gynwysedig o ddisgyblion i Robert Owen.

Yn Ionawr, 1829, ymddanghosodd cylchgrawn arall, dan yr enw—"The Associate." Cyhoeddid ef yn fisol am geiniog, gan Gymdeithas Fasnachol Gydweithiol Llundain, 2, Jerusalem Passage, Clerkenwell. Yr oedd hwn yn gylchgrawn bychan trefnus a destlus, ac ynddo am y tro cyntaf y rhoddir crynhodeb o reolau y gwahanol gymdeithasau. Eithr diffyg mawr y symudiad ydoedd rhyw ffordd o addysgu'r gweithwyr yn egwyddorion

cydweithrediad. Yn Gorffennaf, 1829, sefydlwyd y Gymdeithas Brydeinig er lledaenu gwybodaeth ynghylch y symudiad. Erbyn y Chwefrol dilynol, yr oedd 308 o aelodau yn perthyn iddi. Ei hamcan ydoedd (1) cyhoeddi traethodau, (2) anfon allan genhadon, (3) adeiladu ystafelloedd i draddodi darlithiau ynddynt, (4) i sefydlu rhyw fath o gyfnewidfa cydrhwng y gwahanol gymdeithasau, a (5) i amddiffyn y cymdeithasau yn wyneb ymosodiadau unrhyw elyn.* Cyfarfyddai'r gymdeithas yn chwarterol.

Erbyn yr Hydref fe ddywedir fod cynifer a phedwar cant o gymdeithasau wedi eu sefydlu. Y mae'n debyg mai y rheswm dros y gwahaniaeth rhwng y cyfrif hwn ac eiddo Dr. King ydyw nad oedd y diweddaf yn cynnwys y cymdeithasau cynhyrchiol, eithr y cymdeithasau trafnidiol *(distributive)* yn unig. Yr oedd llawer o gymdeithasau cynhyrchiol yn bod hefyd. Ym Manceinion codwyd melin i drin a llifo *velveteen*, dan yr enw—" The Owenian." Yr oedd chwech ugain o weithwyr yn y felin hon, a'r oll ohonynt yn bartneriaid ynddi.

* Co-op. Magazine, iv., 27, 48.

Yn Halifax ymunodd dwy gymdeithas ar bymtheg â'u gilydd, ar ol casglu £7,000, yn un gymdeithas wneuthurol. Erbyn 1832, yr oedd bron yr oll o angenrheidiau bywyd yn cael eu cynhyrchu yn y melinoedd. Mewn nodachfa yn Llynlleifiad, yn yr hydref o'r flwyddyn honno, yr oedd saith gant o gymdeithasau yn cael eu cynrychioli. Yr oedd yno wlanen o Rochdale, a llian o Barnsley; hosanau a *lace* o Leicester, a chyllill a photiau o Sheffield; brethyn o Halifax, esgidiau o Kendal, a *prints* o Brickacre. Yr oedd y gwragedd yn cymeryd y symudiad i fyny. Yn Brighton, yr oedd y *milliners* wedi ffurfio cymdeithas, ac yn perchenogi clwb eu hunain.

Cyfeiriad na ddisgwyliodd Owen gymerodd y symudiad. Pan y daeth i'r wlad hon o'r America, cafodd fod ei syniadau wedi blodeuo a ffrwytho mewn ffurf gwahanol i'r hyn fwriedid ganddo. Eithr methodd weled mai y ffurf a gymerwyd ydoedd y goreu i gyfarfod âg anghenion y wlad. Ni ddarfu iddo ef na'i ddisgyblion cyntaf ddeall gwir ystyr y symudiad yr oeddynt yn gyfrifol am dano.

Gan fod pethau wedi myned y ffordd honno, gwelodd Owen mai doethineb bell-

ach fyddai taflu ei hunan i'r symudiad. Gwelodd hefyd mai nid drwy uchelwyr a phendefigion yr oedd y bobl i gael gwell byd, eithr drwyddynt hwy eu hunain. Dylanwadodd Owen ar y mudiad cydweithredol mewn dwy ffordd. (1) Ceisiodd uno yr holl gymdeithasau mewn symudiad eangach; (2) a cheisiodd roddi ei ddamcaniaeth parthed gwerth cynnyrch ar waith drwy sefydlu cyfnewidfeydd llafur.

Penderfynodd Owen ddechreu addysgu'r gweithwyr gogyfer â'r symudiad mawr yr arfaethai ei gychwyn. Gwelodd mai y Sabbath ydoedd unig seibiant y gweithwyr, a dechreuodd ddarlithio yn y Mechanics' Institute, Southampton Buildings, ar y Suliau. Creodd hyn wrthwynebiad mawr yn fuan, a bu yn rhaid symud i'r Sans Souci Institution yn Leicester Square, ac oddiyno aethpwyd i gapel a brynasai Owen yn Burton Square. Deuai cynulleidfaoedd mawrion ynghyd, a thraddodid darlithiau ar bynciau trefnidyddol, megis "Difodwch y Canolwr," "Pe trefnid llafur yn briodol, byddai dydd gwaith o wyth awr yn bosibl," "Y bobl biau'r tir," "Y wlad honno sydd ddedwyddaf, y mae ynddi fwyaf o gynhyrchwyr a lleiaf o ddosbarthwyr," "Y ffurf oreu o dreth ydyw treth raddedig ar

eiddo," "Y dylid cynnal cynhadleddau cenhedlaethol."*

Rhwng 1830 ag 1832, ymddanghosodd y *Crisis*, dan olygiaeth Robert Owen a'i fab, Robert Dale. Drwy gyfrwng hwn y bwriadai Owen ledaenu ei syniadau. Yr oedd yr enw yn nodweddiadol iawn o'r dyn. Yr oedd cyfwng, y mae'n wir, y pryd hwnnw; ond ni gredwn nad oes adeg wedi bod yn hanes cymdeithas na fu proffwyd hefyd yn cyhoeddi o bennau'r tai fod cyfwng mawr gerllaw. Yn y *Crisis* yr oedd yr holl symudiad i gael ei ganolbwynt. Ymddanghosodd pedair cyfrol o'r cylchgrawn hwn; eithr ni ymddengys fod y ddiweddaf o honynt dan nawdd na golygiaeth y naill na'r llall o'r ddau Owen. Yr arwydd mwyaf amlwg o ddylanwad Owen ar y symudiad ydoedd y nifer o gynhadleddau gynhaliwyd mewn perthynas i gydweithrediad. Cynhaliwyd saith o honynt rhwng 1830 a 1834. Y bwysicaf o honynt ydoedd yr un gynhaliwyd yn Gray's Inn Road yn 1832. Yn hon ceisiwyd creu difaterwch gwleidyddol ymhlith y gweithwyr. "Yr oedd llywodraeth arglwyddiaethol *(despotic)*,"

*-Cawn Owen yn dweyd hyn mewn llythyr mor fore a'r 9fed o Awst, 1817.

meddai Owen, " yn aml yn well na gwerin-lywodraeth. Ac mor bell ag oedd a fynno cydweithrediad â hynny, nid oedd o fawr pwys pa un ai arglwyddiaethol ynte gwerinol y llywodraeth "—arwydd eglur nad oedd Owen ddigon o weledydd, serch mor bell y gwelai, i roddi'r gwir esboniad ar symudiad a anwyd o'i syniadau ef ei hun. Y mae cydweithrediad yn sicr o esgor ar werin-lywodraeth. Ni chafodd yr hyn ddywedodd Owen basio yn ddisylw. Yr oedd Joseph Hume, y gwleidyddwr a'r hanesydd yno—a dadleuodd yn gryf yn erbyn athrawiaeth difaterwch gwleidyddol.

Eithr y pwysicaf peth yn y gynhadledd hon ydoedd penderfyniad a gynygiwyd gan Robert Owen ei hun, ac a basiwyd, sef,—

" Oherwydd fod y byd cydweithiol yn cynnwys personau o bob enwad crefyddol, a phob plaid wleidyddol, y mae y cyfarfod hwn yn unfrydol yn penderfynu nad ydyw cydweithredwyr fel y cyfryw i gael eu cysylltu ag unrhyw ddaliadau crefyddol neu anghrefyddol, na gwleidyddol o gwbl, eiddo Mr. Owen na neb dyn arall."

Y mae yn angenrheidiol i ni gofio bob amser, na ddeallodd Robert Owen wir ystyr y symudiad cydweithiol; a chyfrifai

ef yn is-wasanaethgar i'r gwaith o sefydlu cymuniaeth ar y tir. Y mae yn debyg hefyd mai hyn ydoedd meddwl y lliaws o'r cydweithredwyr boreuol. Yn y gynhadledd hon, dywedodd Owen fod tir i'w gael, yn cynnwys pedwar cant ar ddeg o erwau, yn Aylesbury, swydd Hertford; ac anfonwyd ef, ynghyd a William Thomson, un o brif arwyr y symudiad, a Bromley,* i weled ac ymholi mewn perthynas i'r lle. Anfonwyd hefyd ddirprwyaeth at Morgan, aelod o'r Stock Exchange, i geisio benthyca drwyddo y swm o chwarter miliwn o bunnau. Pa beth fu canlyniad hyn nis gwn.

Hwn ydoedd y cyfnod arwrol yn hanes y symudiad cydweithredol. Daeth dyddiau tywyll arno,—a chyfaddef y gwirionedd,—i fesur drwy y prif arwr ei hun. Pa fodd y goddiweddwyd y symudiad gan gyfnod o aflwyddiant cawn weled yn y bennod nesaf.

Yr oedd brwdfrydedd mawr yn bod drwy yr holl wlad—yr oedd y symudiad wedi cydio yn y bobl. "Ni welwyd yn Lloegr, gynt na chwedi, gynifer o gylchgronau cydweithiol ag a welwyd yn y dyddiau hynny."†

* Daw Bromley dan sylw yn y bennod nesaf

† Holyoake, Hist. Co-op., i., 129.

## V. Y GYFNEWIDFA LAFUR.

[Y syniad sylfaenol.—Ymdrechion i osod safon diysgog o werth cyn dyddiau Owen.—Cyfnewidfa Owen.—Ei llwyddiant.—Y Nodau llafur.—Lledaeniad y mudiad.—Ei wendid. —Anhawsterau yn dechreu codi.—Yr effaith ar y symudiad cydweithredol.]

YN ei "Adroddiad i swydd Lanark" yn 1820 pwysa Owen ar yr angenrheidrwydd o ddileu arian bathedig. Yr oedd Ricardo wedi dysgu mai llafur ydoedd gwir fesur gwerth,* ac nas gallai aur nac arian fod yn fesur perffaith o werth pob peth. Esboniai Robert Owen hyn fel dadl dros ddiddymu cylchrediad arian bathedig. Credai (gyda Peel) fod cylchrediad papur yn rhagori ar gylchrediad arian, a gwrthwynebodd yn gryf y caniatad i Fanc Lloegr i ddychwelyd i'r hen arfer o dalu mewn arian, yn 1819. Yr oedd arian, fel moddion cyfnewid, i'w feddwl ef hefyd yn rhoddi cyfle i rai personau i gasglu cyfoeth i'w dwylaw

* Principles, xx. passim.

eu hunain, ac yn rhoddi mantais i'r cyfoethog i ormesu'r tlawd. Y feddyginiaeth angenrheidiol ydoedd difodi arian bathedig a threfnu rhyw fath o gylchrediad fyddai'n cynrychioli yn deg y llafur a ddefnyddiwyd i wneuthur unrhyw nwydd. Y mae pob cyfoeth wedi ei gynyrchu gan lafur. Pa safon gwell, o gyfoeth, felly, all fod na llafur?

Ym Mehefin, 1832, cyhoeddodd Owen yn y "Crisis" ei fod yn bwriadu ffurfio Cymdeithas i ddwyn ymlaen gyfnewidfa o nwyddau, ar sail llafur am lafur cyfartal. Nid oedd y syniad o osod safon gwerth diysgog a safadwy yn newydd. Yr oedd Diocletian yn 301 A.D., wedi gosod i lawr ddeddf yn rhinwedd yr hon yr oedd pris pob peth,—dilladau, bwydydd, a thal llafur i fod yr un ymhob rhan o'r Ymerhodraeth Rufeinig.† Bu y ddeddf hon mewn gweithrediad hyd 305. Yn y Canol Oesoedd, yr oedd y cyfreithwyr eglwysig wedi gosod i lawr yr un egwyddor. Yn y "Corpus Juris Canonici" yr oedd usuriaeth yn cynnwys, nid yn unig gofyn a derbyn llog uchel, ond pob llog—ac hyd

† Edictum Diocletiani de pretiis rerum venalium.

yn oed pob elw tuhwnt i'r hyn oedd bris cyfiawn a theg mewn prynnu a gwerthu cyffredin; a byddai usurwyr o bob math yn agored i gosp ofnadwy yn y byd a ddaw. Yr oedd Dante yn eu rhoddi yn y raddfa isaf yn ei seithfed Cylch yn Uffern, fel rhai yn gwneyd camwri â Duw a natur.† Yn y Chwyldroad Ffrengig, gosodwyd i lawr "maximum," sef pris safadwy ar bob un o angenrheidiau bywyd,‡ a pharhaodd hyn am hanner blwyddyn. Y gwahaniaeth rhwng y cynlluniau hyn a'r eiddo Owen ydoedd eu bod hwy yn glynu mewn arian bathedig fel safon gwerth.

Yr oedd un Josiah Warren wedi cychwyn, yn Mai, 1827, gyfnewidfa yn Cincinnati dan yr enw "Time Store," ar yr egwyddor o fesur gwerth mewn oriau gwaith, a dywed Warren ei hun mai ganddo ef y cafodd Owen y syniad. Fe ddarfu i'r Ffrancwr Proudhon,* ar ol Owen, gychwyn rhywbeth cyffelyb ond ar linellau gwahanol.

† Inferno, xi. 46—50.

‡ 29 Medi, 1793.

* Organisation du crèdit et de la circulation, et solution de problème sociale.

Yn nadblygiad y dull o gyfnewid y mae tri chyfnod i'w weled. Y cyfnod cyntaf ydoedd hwnnw y cyfnewidid ynddo nwydd am nwydd, heb unrhyw foddion canolog. Yna daethpwyd i gyfnewid drwy foddion canolog oeddynt yn meddu gwerth ynddynt eu hunain megis aur ac arian; a'r cyfnod diweddaf ydyw hwnnw y cyfnewidir ynddo drwy foddion na feddant werth ynddynt eu hunain, megis papur. Ac i geisio rhoddi mynegiad i'r egwyddor diweddaf hwn yr agorodd Robert Owen ei gyfnewidfa. Credai mai drwy hyn yn unig, yr oedd yn bosibl gwneyd gwerth pethau yn safadwy. Am hynny pan agorodd ei gyfnewidfa ym Medi 1832, yr unig gylchrediad a gydnabyddid ydoedd nodau papur, y rhai a gynrychiolent un awr o lafur.

O'r nodau hyn yr oedd rhai yn cynrychioli dwy awr. Gallai pob aelod gyflwyno ei gynhyrchion i'r gyfnewidfa a derbyn nodau llafur cyfartal a'u gwerth. Yr oedd dolen yn cael ei rhoddi i gydio'r gymdeithas yn y byd oddiallan drwy osod gwerth un awr yn chwe cheiniog. Yn y prisiad, cymerwyd i mewn werth y defnydd anelwig; a hyn, ynghyd a'r nifer o oriau a dreuliwyd yng ngwneuthuriad y

nwydd, ydoedd gwerth y peth. Yr oedd gwerth y nwydd yn cael ei benderfynu gan briswyr cyfarwydd, barn y rhai parthed yr oriau a gymerai gweithwyr cyffredin i wneyd unrhyw beth, oedd yn derfynol. Yr oedd y treuliau yn cael eu cyfarfod drwy drethu'r cyfnewidiad yn ol $8\frac{1}{3}$ y cant.

Ar ei gyfrifoldeb ei hun yr agorodd Owen y gyfnewidfa; ond gwelai na byddai i'r peth ledaenu ymhell oddieithr i'r Llywodraeth ei gymeryd i fyny. Yn 1834, anfonodd ddeiseb i'r Llywodraeth ar iddynt agor cyfnewidfeydd cyffelyb drwy yr holl wlad.

Fel pob un o anturiaethau Owen, dechreuodd y gyfnewidfa ei gyrfa yn llewyrchus iawn. Yr oedd Owen ei h[illegible] yn llawn o obaith parthed effeithiau'r sefydliad. Yr oedd yn bryd bellach i'r cyfoethogion edrych ati. "Y mae y darganfyddiad o nodau llafur," meddai, "yn fwy o bwys na holl weithydd mŵn Periw a Mexico, gan y par yn fuan i'r gweithwyr fod yn anibynnol." Ac mewn gwirionedd, yr oedd rhagolwg y byddai i hynny gymeryd lle. Yr oedd yr heol mor llawn fel nas gellid teithio ar hyd-ddi. Aeth y *deposits* i fyny i 38,772 mewn wythnos, ac yr oedd y symudiad wedi cydio mor gyffredinol yn

y dref, fel y derbyniai 250 o fasnachwyr y nodau llafur yn lle arian. Yr oedd hyd yn oed y chwareudai yn eu derbyn fel tal am fynediad i mewn iddynt.

Wele ffurf y nodau,—

EQUITABLE LABOUR EXCHANGE.

Gray's Inn Road.
Est. 1832.

First Branch :—
Blackfriars Rd.

To the Storekeeper of the Exchange,
No. ......., 1st. Dec., 1832.

Deliver to the bearer, Exchange Stores, to the value of TWO HOURS.

By order of
ROBERT OWEN, *Governor.*
S. AUSTIN, *Director.*
.................., *Secretary.*

TWO HOURS.

Y pryd hwn, gwnai y Gyfnewidfa elw o ugain punt yn yr wythnos.

Yn Mai 1833 symudodd i le helaethach yn Charlotte Street, Rathbone Place. Yr oedd yma ystafell fawr i gynnwys deuddeg mil o bobl ar eu traed, neu tua tair mil a hanner yn eistedd.

Ni chyfyngwyd y mudiad newydd hwn i Lundain nag i Robert Owen. Yng Ngorffennaf, 1833, mewn canlyniad i ymweliad Owen, cychwynwyd cyfnewidfa yn Birmingham, a llwyddodd hon hefyd yn fawr. Mewn un wythnos cyflwynwyd 1,600 o nodau am un awr, ac yr oedd yr elw yn £30. Ar gyfalaf o £450 bu elw o £262 yn y chwarter cyntaf. Cychwynwyd cyfnewidfa gan King yn y Gothic Hall, New Street, Llundain.* Yr oedd Owen yn elyniaethus i hon am nad oedd iddi gyfalaf, a thrwy hynny sicrwydd digonol i'w chwsmeriaid. Cychwynodd King gylchgrawn—"*The Gazette of Labour Exchanges;*" ac ymddengys fod nifer y cyfnewidfeydd yn Llundain yn ddeg ar hugain.

Yr oedd anturiaeth Robert Owen yn llwyddo cymaint fel y bu yn ofynol ailagor y lle y dechreuwyd ynddo yn Gray's Inn Road, fel nodachfa ychwanegol. Yr

* Ai Dr. King o Brighton ydoedd hwn, nid wyf sicr. Y mae yn ymddangos iddo impio'r syniad o nodau cyffelyb ar y trafnidiaeth cydweithiol oedd yn myned ymlaen yn Llundain yn 1827; ac yn Brighton, yr oedd nodau llafur yn bod yn Hydref, 1827. Ar y cyfan yr wyf yn tueddu i gredu mai person arall ydoedd y King hwn.

oedd yr holl elw a wnaethpwyd yn agos i £60,000 yn y flwyddyn. Fe wnaed, fel y gellir disgwyl, lawer o gamgymeriadau. Yr oedd y masnachwyr hynny oeddynt yn derbyn nodau llafur yn cael eu parchu fel caredigion i'r mudiad ;† ond yr oeddynt yn fwy cyfrwys na charedig. Casglent nifer mawr o'r nodau am bris llai na'u gwerth, drwy beidio rhoddi eu llawn werth am danynt. Yna gallent fyned i'r gyfnewidfa, a chymeryd yn lle'r nodau nwyddau yr oedd galw am danynt, yn ol eu llawn bris. Achosai hyn, wrth gwrs, gryn golled ; a gorchfygai hyn brif amcan Owen, drwy beri fod pethau yn rhatach yn y gyfnewidfa nag yn y masnachdai o'r tu allan. Nid oedd y gweithiwr yn cael gwerth chwe cheiniog am nodyn un awr yn y masnachdai.

Yr oedd y nodau hefyd yn agored i un gwrthwynebiad difrifol. Yr oeddynt yn hawdd eu lladrata ; ac ar un achlysur diflanodd naw mil o nodau awr. Gwnaeth Owen y golled i fyny o'i logell ei hun, er nad oedd yn gyfrifol am danynt yngolwg deddf y wlad. Eithr serch pob anhawster fel hyn, a llawer o hunangais, yr oedd llwyddiant yn disgyn i ran y cyfnewid-

† Holyoake—Hist. Co-op., i. 167.

feydd, hyd nes y digwyddodd un peth, am yr hwn nis gellir dal Owen yn gyfrifol, ond yr hwn a fu yn angeu iddynt.

Yr oedd yr ystafell yn Gray's Inn Road yn perthyn i wr o'r enw Bromley. Llyncodd Bromley syniadau Owen yn awchus, ac yn ei frwdfrydedd cynygiodd fenthyg ystafell i Owen na fu defnydd arni na gofyn am dani am amser maith. Yno yr agorwyd y gyfnewidfa gyntaf; eithr symudwyd oddiyno i Charlotte Street, pan aeth y lle yn rhy fychan. Yna bu yn rhaid ei hail-agor, oherwydd fod y lle yn Charlotte Street yn rhy gyfyngedig. Tebyg yw ddarfod i lwyddiant Owen fagu cenfigen yn Bromley, a phenderfynodd yrru Owen o'r lle. Dywed rhai mai y rheswm dros hyn ydoedd fod Owen yn gwrthod talu am y lle; ond yr oedd Owen yn rhy onest i beidio gwneyd hynny, os bu cytundeb i dalu. Modd bynnag, yr oedd Bromley am geisio cael rhyw elw iddo'i hun allan o'r gyfnewidfa. I ddechreu hawliodd £1,000 am y dodrefn. Talodd Owen hyn iddo. Yna cynygiodd werthu'r lle am £17,000. Gwrthodwyd y cynnyg. Yna hawliodd £1,700 o ardreth. Penderfynodd y cyfarwyddwyr symud. Ond cyn iddynt gael eu gwynt atynt yr oedd

Bromley wedi llogi criw o bedwar a thrigain o labystiaid i ymosod ar y lle, a throi'r cyfarwyddwyr allan i'r heol. Aeth y cyfarwyddwyr oddiyno i'r Surrey Institution yn Blackfriar's Road, i ddwyn ymlaen waith y gyfnewidfa. Talodd Owen lawer o arian i dawelu'r peth. Agorodd Bromley yr hen le dan yr enw—"*The National Land and Equitable Labour Exchange*," ond methiant fu'r antur. Ceisiodd Owen, gyda'i fab hynaf, agor cyfnewidfa ar gynllun newydd yn yr ystafell yn Charlotte Place, ond ofer fu'r ymgais. Yr oedd ymddiried y gweithwyr wedi cael ei friwio tuhwnt i adferiad, serch i Owen dalu £2,500, swm y daliai ei hun yn foesol gyfrifol am dano. Hyn fu diwedd y Gyfnewidfa Lafur.

Effeithiodd yr amgylchiadau hyn yn dra niweidiol ar y Symudiad Cydweithiol. Yr oedd eu cysylltiad â'r cyfnewidfeydd yn ddeublyg. Yr un gwr ydoedd tad y ddau fudiad; ac yr oedd llawer o fasnach y Cydweithredwyr yn cael ei wneyd drwy gyfrwng y cyfnewidfeydd. Syrthiodd anfri ar y Symudiad Cydweithredol pan y collodd y cyfnewidfeydd ymddiried y wlad, a'r canlyniad fu o'r cannoedd Cymdeithasau Cydweithredol yn 1834, nid

oedd rhagor na chwech neu saith yn fyw yn 1836. Ac yn isel y bu Cydweithrediad hyd nes y cafodd fywyd newydd gan y "Rochdale Pioneers" yn 1844. Ni pherthyn i ni ddilyn hanes y symudiad ymhellach. Digon ydyw dweyd fod Cydweithredwyr y dydd heddyw yn cydnabod eu dyled i Robert Owen; ac i ddangos hynny, bwriadant godi cofgolofn ar ei fedd, a sefydlu rhywfath o lyfrgell neu *Institute* i hyrwyddo efrydiaeth y cwestiynau hynny y bu Robert Owen mor ddyfal yn ceisio eu hateb ac y danghosodd gymaint o hunan-aberth yn yr ymdrech i'w hateb yn ymarferol.*

Dichon y dylid yma wneyd sylw neu ddau ar Gyfnewidfa Owen. Yr oedd Owen ar y dechreu yn gwneyd camgymeriad drwy edrych ar werth fel y draul o wneuthur peth yn unig; ac mai llafur ydoedd y traul hwnnw i gyd. Nid oedd ef na'i gynorthwywyr yn gallu gwahaniaethu rhwng gwerth awr o lafur celfydd a'r un hyd o lafur anghelfydd. Byddai unrhyw ymdrech i gyfrif hyd yr amser y bu'r gweithiwr yn dysgu ei grefft, ac i ystyried yr anhawster a berthyn i rai mathau o lafur, wrth osod prisiau ar bethau, yn

* Gweler y *Western Mail* am yr 11eg o Fehefin, 1900.

rhwym o wneuthur y gyfundrefn yn rhy gymhlethedig i weithio yn rhwydd. Nis gall llafur ei hun fod yn safon gwerth. Yr oedd Owen yn analluog i weled, fel yr oedd Marx ar ei ol yn anwybyddu, deddf "*Economic Rent*" (fel y gelwir hi gan Drefnidwyr diweddar), a'i dylanwad ar werth cynhyrchion; ac y mae y gwahanol ystyriaethau y mae yn rhaid eu dwyn mewn cof wrth osod pris a phenderfynu gwerth, yn gwneyd y gwaith o sefydlu Cyfnewidfa gyfiawn yn aruthrol fwy anhawdd nag y tybiai Owen.

Y mae yn werth sylwi yma ddarfod i'r Cynghrair Cydweithredol yng Nghaerdydd ym Mehefin 1900, ystyried y pwnc o geisio sefydlu rhywfath o gylchrediad arbennig cydrhwng y Cymdeithasau Cydweithredol eu hunain. Ond dengys y drafodaeth nad oedd llawer yno yn deall y mater. Ni ddaethpwyd i benderfyniad pellach nag anfon y mater i'r Bwrdd Canolog i'w ystyried. Nid oedd gan gefnogwyr y penderfyniad ddadl nas defnyddiwyd hi gan Robert Owen dri chwarter canrif yn ol.†

† Ceir yr ymdrafodaeth yn y *Western Mail* ar yr 11eg o Fehefin, 1900, neu yn yr adroddiad o hono yn y *Co-operative News*, yr wythnos ddilynol.

## VI. YR UNDEBAU LLAFUR.

[Yr undebau boreol.—Owen yn gafael yn y symudiad.—"Undeb cyffredinol o'r dosbarthiadau gweithiol."—Tyfiant y symudiad newydd. — "Cymdeithas adnewyddiad cymdeithas."—Llafurwyr Dorchester.—Owen yn gwneyd parotoadau mawrion i uno'r undebau.—"Y gymdeithas o bob dosbarth o bob cenedl."—Y "Social Father."—Genedigaeth yr enw "Socialist."—Cynhadleddau y gymdeithas. — "The National Community Friendly Society."—"Universal Community Society of Rational Religionists."—Y Grefydd Newydd.—Bywyd dyn yn y "Byd Moesol Newydd."—Amcan Owen.—Sefydliad Queenwood.—Ei hanes.—Marwolaeth y Sefydliad.—Diwedd yr ail gyfnod ym mywyd Owen.]

YN gyfochrog a thyfiant y Symudiad Cydweithredol, yr oedd symudiad arall o bwys yn datblygu. Er adegau cynnar yn hanes llafur, cawn fod gweithwyr wedi uno i amddiffyn eu breintiau, ac i bwysleisio eu hawliau. Naturiol ydoedd iddynt gynhyddu yn gyflym iawn mewn oes a feddai gymaint dyddordeb mewn materion trefnidol, ac ydoedd hefyd

yn rhoddi cymaint bri ar bob symudiad perthynol i lafur. Gwelodd Owen yn yr ysgogiad hwn arf cymhwys i'w amcanion, ac yn ol ei arfer, cymerodd afael ynddo gydag egni nodweddiadol.

Y tro cyntaf y gwyddom i Robert Owen ddod i gyffyrddiad gwirioneddol â'r Undebau ydoedd mewn cyfarfod o Undeb yr Adeiladwyr ym Manceinion yn 1833. Fel arfer, dadlennodd iddynt ei "ddirgelwch" mawr, megis y gwnaeth ym mron pob cyfarfod yn ystod y pymtheng mlynedd blaenorol, a dywedodd wrth ei gynulleidfa y pryd hwnnw pe byddai i weithwyr y wlad ddod i ddealltwriaeth â'u gilydd, gallent ddal yr holl gyfoeth a ddeilliai o fasnach y wlad yn eu dwylaw eu hunain.* Y mae ar unwaith yn rhoddi y syniad hwn ar waith.

Ar y 6ed o Hydref, 1833, galwodd ynghyd gynhadledd o'i ddilynwyr i geisio ffurfio "Undeb Cyffredinol o'r Dosbarthiadau Cynhyrchiol." "Bwriedir gwneyd darpariaeth," meddai Owen, yn y cyfarfod, "i uno'r dosbarthiadau gweithiol mewn un cyfangorff mawr; ac i alluogi un

* Beatrice & Sidney Webb.—History of Trades Unions, tud. 116.

adran i wybod beth y mae y llall yn ei wneyd. Y mae pob cydymgais rhwng personau i ddiflannu, a'r holl wneuthuriadau i fod yn nwylaw Cwmniau Cenhedlaethol."* O hyn y daeth "Yr Undeb Llafur Cenedlaethol" (National Consolidated Trades' Union) yn Ionawr, 1834. Yn ystod y misoedd dilynol gweithiodd Owen yn ddibaid. Fel arfer, eto, bu llewyrch mawr ar gychwyniad y symudiad hwn. Yr oedd Cymdeithasau o bob rhan o'r wlad yn cysylltu ei hunain â'r Undeb newydd. Yn Chwefrol, cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn y Sefydliad yn Fitzroy Square i dynu allan reolau, a darparu yn briodol ar gyfer dygiad y Symudiad ymlaen. Yr oedd yr Undeb i gynnwys gwahanol "lodges," a phob "lodge" i fod yn gyfansoddedig o aelodau yn ymarfer yr un grefft. Mewn lleoedd na byddai ynddynt ddigon o grefftwyr i ffurfio gwahanol gymdeithas i bob crefft, yr oedd Undebau Cyfansawdd i fod; a chymerid i mewn i'r Undeb "lodges" cyfansoddedig o fenywod. Yr oedd pob lodge i gasglu cronfa ar gyfer yr hen, yr afiach, a'r anafedig, a chladdu'r meirw. Ymhen ych-

* Crisis, Hydref 12, 1833.

ydig wythnosau yr oedd pum can mil o aelodau yn yr Undeb, a rhai miloedd o honynt yn weision ffermydd a merched. Yr oedd y byd gweithiol yn ferw brwd. Yn Rhagfyr nid oedd crefft yng ngorllewin Ysgotland na pherthynai iddi ei Hundeb; yn Hull drwy offerynoliaeth dau o genhadon yr Undeb, ffurfiwyd Undebau o wahanol grefftiau, yn cynnwys mil o aelodau, mewn un noson.†

Yr oedd glanhawyr simneiau a gweision siopau yn ymuno drwy y wlad. Yn Aberdeen, yr oedd yr aradrwyr, ac yn Dundee y cneifwyr, wedi ffurfio eu hunain yn Undebau. Yr oedd y menywod yn ymuno ymhob man. Yr oedd ganddynt, er engraifft, "Undeb Cyffredinol o Ferched Prydain Fawr a'r Iwerddon," ag "Undeb mawreddog o wneuthurwyr boneti." Ac eisoes yr oedd y "Lodge of Female Taylors" wedi dechreu ffraeo a'u brodyr yng nghrefft y labwt a'r ŵydd.

Yr unig obaith am effaith sylweddol ydoedd cael cymdeithasiad cryf o'r gwahanol Undebau hyn. Tybiai Owen y byddai hynny'n ddigon i ddwyn pob di-

† *Times*, 5 Mai, 1834.

wygiad angenrheidiol i ben. Gweriniaeth lafurawl bellach ydoedd y nod.

Yr oedd Robert Owen eisoes wedi bod yn foddion i sicrhau rhai gwelliantau ym mywyd y gweithwyr. Yn 1833, ffurfiodd "Cymdeithas Adnewyddiad Cenhedlaethol," a thrwyddi pwysodd ar y dymunoldeb o gael dydd gwaith o wyth awr. Dygwyd ymlaen yr ysgogiad hwn gyda'r fath ynni fel nad oedd unrhyw le ag ynddo weithwyr heb ei "bwyllgor lleihau oriau," a'r effaith fu i fesur deng awr gael ei basio. Hyn, ynghyd a dadleu diwyd Owen dros sicrhau nifer penodol o oriau gwaith, a gosod terfyn yn is na'r hwn nis gallai cyflog ddisgyn, a enillodd iddo gydymdeimlad ac ymddiried y dosbarth gweithiol.

Yr oedd Robert Owen wedi bod ar un adeg yn teimlo fod yr Undebau yn rhy ieuanc, ac yn ormodol tan gyfarwyddid dynion dibrofiad, i allu esgor ar unrhyw ddaioni. Eithr cafodd ei argyhoeddi mai camsyniad ydoedd hynny, yn fuan iawn; ac mewn gwrthgyferbyniad tarawiadol i'w farn gyntaf, ydoedd ei waith gyda golwg ar lafurwyr Dorchester yn 1834.

Yr oedd gweithwyr amaethyddol deheubarth Lloegr wedi bod mewn cyflwr

anesmwyth iawn ers blynyddau. Yr oedd y Deddfau Yd, yr hen ddeddfau ar gyfer y Tlodion, a'r undeb dirgelaidd rhwng yr amaethwyr yn gwasgu yn dyn arnynt. Yn 1829, danghosodd yr anesmwythtra hwn ei hun yn ninistr peiriannau ac offer gwaith, ac mewn llosgi gwair. Ac erbyn 1830 yr oedd pethau mor ddrwg fel y bu yn rhaid cael y milwyr i gadw'r heddwch. Mewn lle bychan o'r enw Tolpuddle yn swydd Dorset cychwynwyd symudiad er sicrhau cyflogau cyfartal a'r rhai delid yn y siroedd cyfagos. Mewn canlyniad codwyd y cyflog i 10/- yr wythnos, eithr yn y flwyddyn ddilynol, edifarhaodd y ffermwyr oblegid eu gwaith, ac fe ostyngwyd cyflogau y llafurwyr yn raddol i saith swllt yr wythnos. Yr oedd yn y pentref ddau frawd, George a John Loveless, Wesleyaid tawel bucheddol, a phenderfynasant ffurfio cymdeithas gyffelyb i'r rhai oedd mewn bri mewn rhannau eraill o'r wlad. Ffurfiwyd "Cymdeithas gyfeillgar o weithwyr amaethyddol," gyda'r brif gymdeithas yn Tolpuddle. Yr oedd yr Undebau yn derbyn aelodau yn y dyddiau hynny drwy ddefodau cyfriniol; ac esponid hynny fel arwydd fod y cymdeith-

asau yn ddirgelaidd ac felly yn anghyfreithlon. Cymerwyd gafael ar hyn gan y ffermwyr, a chymhellasant yr ynadon i gyhoeddi y cospid unrhyw berson a ymunai a'r Undebau. Tri diwrnod wedi hyn, rhoddwyd y brodyr Loveless yn y ddalfa. Cymerodd eu prawf le ar y 18fed o Fawrth 1834, a dedfrydwyd hwynt i saith mlynedd yn Botany Bay. Erbyn y 15fed o Ebrill yr oeddynt ym morio tua'r wlad honno.

Yr oedd y prawf wedi bod yn hynod anfoddhaol. Yr oedd yn wyrdroad cywilyddus o'r gyfraith, a chrewyd gryn gyffro yn y wlad gan yr amgylchiad. Yr oedd y Llywodraeth yn anwybodus hollol o ddwyster teimlad y wlad, onide prin y buasai wedi caniatau anfon y brodyr i benydwasanaeth. Trefnwyd gorymdaith fawr gan yr Undebau Llafur drwy'r wlad i brotestio yn erbyn y peth ar y 18fed o Fawrth, 1834. Dyma'r achlysur a barodd i Owen ymdaflu yn gyfangwbl i'r symudiad llafurawl. Aeth yn gyfrifol i'r Llywodraeth am gadw'r heddwch yn Llundain, ond bu rhai mwy cyffrous yn drech nag ef. Addawodd Owen i'r Llywodraeth na byddai i'r orymdaith fyned heibio i'r

Swyddfa Gartrefol, ond heibio yr aeth. Ac fe ddywedir fod hyn wedi caledu calonnau aelodau y Llywodraeth, yn lle, fel y disgwylid, eu dychryn i liniaru neu ddileu'r ddedfryd.*

Teimlad Owen wedi'r amgylchiad hwn, yn ddiau, ydoedd fod gwaith yr orymdaith yn gwrthod derbyn ei gyngor yn profi angen yr Undebau am arweiniad cymwys. Yn ystod y gaeaf dilynol, y mae yn gwneyd paratodau mawrion ar gyfer uno'r Cymdeithasau yn effeithiol. Y mae yn dysgu a darlithio yn ddiwyd. Yn Nhachwedd gwahodda'r Undebau i fanteisio ar y darlithoedd.† Darlithiai mewn un lle ar y Sul, a thrafodid ei ddarlith ar nos Iau. Mewn lle arall darlithiai ar nos Fawrth, ac ar nos Wener yr oedd ymdrafodaeth ar y ddarlith yn y lle hwnnw. Yn yr un mis, awgryma fod "Byd Moesol Newydd" i gael ei ffurfio, a gesyd i lawr y llinellau y gellid cychwyn y Byd New-

* Dygwyd y symudiad o blaid y carcharorion ymlaen gan y *London Dorchester Committee*, pwyllgor cyfansoddedig o weithwyr cyffredin. Yn 1836, sicrhawyd pardwn i'r dynion anffodus, ac yn 1838 dychwelasant yn ol i'w gwlad.

† New Moral World, Nov. 1, 1834.

ydd arnynt.‡ Yn Ebrill y flwyddyn ddilynol, cyhoedda ei fwriad o gychwyn "Cymdeithas o bob dosbarth o bob cenedl," y rhoddodd awgrym am dani ym Mawrth.‖ Yr oedd yn angenrheidiol, meddai, i'r gweithwyr gasglu pob gwybodaeth parthed pob pwnc o ddyddordeb a mantais iddynt, er mwyn rhoddi gwybodaeth i'r Llywodraeth am adnoddau y bobl, a gwneyd i'r Llywodraeth gymhwyso'r wybodaeth hon er lles y wlad. Ei ddadl fawr ydoedd nad oedd y cymdeithasau tra mewn cyflwr gwasgaredig yn gallu gwneyd dim. Yn hyn yr oedd yn iawn. Eithr ni fynai gyfyngu'r gymdeithas i'r dosbarth gweithiol, er nad oedd fawr hyder ganddo y byddai i gymdeithasau gwleidyddol a chrefyddol ymuno â hi.* Amodau aelodaeth o'r Gymdeithas oeddynt, (1) mynychu darlithiau Owen am dri mis, ac (2) yna pasio arholiad yn egwyddorion y byd moesol newydd. Bwriadai gychwyn y Gymdeithas fawr hon ar y dydd cyntaf o Fai, a byddai'r cyfarfodydd agoriadol yn parhau am y pymtheg-

‡ Ibid., Nov. 22, Nov. 29.
‖ Ibid., March 7, 1835.
* New Moral World, Apr. 18, 1835.

nos cyntaf o'r mis. Ar ddechreu y gynhadledd dywedodd Owen ei fod yn arfaethu neilltuo o'i waith cyhoeddus ar ddiwedd y gynhadledd, ac yna ymddiswyddo fel aelod o'r pwyllgor. Yr oedd wedi cael ei ddewis yn "Dad" y gymdeithas ("Social Father"), ond yr oedd yn rhaid rhoddi hynny i fyny. Yr oedd sefydliad y Gymdeithas yn coroni ei lafur. Yr oedd ei neges ar ben.†

Yr oedd ymgadw o olwg y cyhoedd, modd bynnag, wedi myned yn amhosibl iddo. Yr oedd wedi byw ar y llwyfan cyhyd fel mai ofer fu ceisio byw oddiarno; a hanes Robert Owen yn y blynyddoedd hynny, ydyw hanes y gymdeithas neillduol hon. Eithr yn ystod yr holl amser, amlwg ydyw fod ei ddylanwad ar y wlad yn graddol wanhau.

Yn ystod yr adeg hwn y daeth y gair "Socialist" i ddefnydd cyffredin. Mabwysiadwyd ef gan Raybaud yn ei "Etudes sur les reformateurs contemporaines," a thrwyddo ef cymerodd ei le yn llenyddiaeth gymdeithasol a threfnidol holl genhedloedd Ewrob.

† New Moral World, May 16, tud. 226.

Galwyd ail gynhadledd y Gymdeithas yn "Socialist Congress." Erbyn hyn y mae y trawsgyweiriad o Undeb Llafur syml i Gymdeithas Gymrawdol wedi cymeryd lle. Y drydedd gynhadledd oedd y fwyaf pwysig o honynt. Cynhaliwyd hi yn Salford ym Mai, 1837. Yno ffurfiwyd y "National Community Friendly Society," a chorfforwyd hi yn ol y gyfraith er mwyn diogelu cyllid ac eiddo'r gymdeithas. Sefydlwyd cymdeithas genhadol hefyd, a phenodwyd cenhadon cymdeithasol i fyned drwy y wlad i gyhoeddi'r Byd Moesol Newydd. Cynhaliwyd y gynhadledd nesaf ym Manceinion, a chyhoeddodd y Cymdeithasau mewn undeb â'u gilydd, draethawd yn cynnwys eu hamcanion a'u rheolau. Y pryd hwn y cyhoeddwyd gan Owen "Amlinelliad o Gyfundrefn Resymol o Gymdeithas."

Yn 1839 unwyd y ddwy gymdeithas dan yr enw mawreddog—"Universal Community Society of Rational Religionists" (Pwy a'i cyfieitha?) a daeth y cylchgrawn "The New Moral World" yn "The Gazette of the Universal Community Society of Rational Religionists." Y mae diwyg y symudiad bellach yn grefyddol yn

hytrach na chymdeithasol, a chynhwysai 58 o ganghennau drwy y wlad.

Ac ar ba lun y bwriedid creu y byd moesol newydd hwn? Yr oedd Owen yn credu yn sicr fod dydd crefydd a seilid ar gred yn yr anweledig ar ben, a bod dydd crefydd resymol ar wawrio. Rhoddodd i'r crefyddwyr rhesymol eu Beibl yn "Llyfr y Byd Moesol Newydd," yr hwn ymddanghosodd yn rhannau rhwng 1826 ac 1837. Tynnodd allan gyffes ffydd* a chatecism: ac fe gyhoeddwyd llyfr emynnau. Am ansawdd cyffredinol emynyddiaeth y Gymdeithas, barner oddiwrth y linellau isod,—

Rhif 62. Eldest of things, divine *Equality.*
Rhif 111. (Emyn i ddirwest)
Thou great preservative of Health.
Rhif 124. The great, the unknown Cause,
Unchangeable as fate.

Yn y bumed ran o "Lyfr y Byd Moesol Newydd," desgrifia Owen fywyd dyn yn y byd rhyfedd hwnnw.

Rhennid y deng mlynedd ar hugain cyntaf o fywyd dyn yn chwe cyfnod o bum mlwydd yr un. Hyd ddeg mlwydd

* New Moral World, Cyf. vi., tud. 659.

oed, ffurfid cymeriad y plentyn, a dysgid iddo ganghenau defnyddiol gwybodaeth. O saith hyd ddeuddeg, cynhorthwyai'r plentyn gyda gwaith y ty; ac o 12 i 25 mlwydd oed, yr oedd i wneyd ei ran yn y gwaith o gynhyrchu cyfoeth; ac hefyd ennill yr addysg mwyaf ei werth yn y gorchwyl o addysgu eraill. Pan yn bump ar hugain, yr oedd ganddo hawl i ddechreu mwynhau bywyd. Yn ddeg ar hugain, yr oedd yn cael ei osod yn un o geidwaid cyfoeth y wlad. Hyd ddeugain yr oedd yn aelod o'r Cyngor Llywodraethol. Ac o hynny ymlaen hyd driugain, ymddiriedid iddo pa orchwylion tramorol bynnag fyddai'n galw.

Y mae yn amlwg erbyn hyn pa beth oedd gan Owen mewn golwg. Ceisiodd wyrdroi yr Undebau Llafur yn gwmniau cenhedlaethol i gynhyrchu nwyddau. Eithr ni welodd fod hyn yn lladd yr hyn y ceisiai ef ei wneyd. Ni buasai hyn yn dileu cystadleuaeth. Y cwbl wnelai fyddai gwneyd cwmniau yn hytrach na phersonau yn gystadleuwyr. Gwendid ei holl gynllun ydoedd na cheisiai gysylltu y cwmniau hyn gyda'r Wladwriaeth, a sefydlu math o "Collectivism." Wrth

gwrs, cwestiwn arall ydyw a all *Collectivism* lwyddo.

Nid oedd Owen ei hun yn deall y gwahaniaeth hanfodol rhwng y Symudiad Cydweithredol a'r Undebau Llafur. Pe gadawsai i'r rhai hyn ddatblygu ar eu llinellau eu hunain, buasai'r ddau wedi cynhyddu a llwyddo. Ceisiodd Owen impio Cymuniaeth ar y naill fel y llall, ac—er caleted ydyw addef hyn—bu hynny yn angeu i'r ddau ysgogiad am beth amser.

Yr oedd yr ochr grefyddol yn ychwanegiad at syniad gwreiddiol Owen; ond serch y "grefydd resymol," pan y ceisiodd y gymdeithas newydd weithredu ar syniadau Cymuniaethol Owen, cafodd ergyd farwol.

Yng nghynhadledd 1837, agorwyd Cronfa y "National Community Friendly Society," ac mewn un flwyddyn casglwyd £1,200.* Yn 1839 defnyddiwyd y gronfa i gychwyn Cymuniaeth ar dir yn swydd Hants. Cynhwysai'r tir hwn 533 o erwau a sicrhawyd ef ym mis Awst. Talwyd £750 am brydles am gan mlynedd namyn un, a chytunwyd i dalu rhent blynyddol o £350. Enw y lle ydoedd Queenwood.

* The New Moral World, Vol. iv., p. 271.

Casglwyd ar gyfer y treuliau hyn dair mil o bunnau mewn blwyddyn. Ar y cyntaf ni fynnai Owen ddim i'w wneyd a'r anturiaeth, a rheolwyd y lle gan amaethwr profiadol o'r enw Allen.† Cychwynwyd y lle gyda 42 o drigolion mewn oed, ond yn fuan oherwydd anfoddlonrwydd parthed goruchwyliaeth y lle, aeth y nifer i lawr i ddeuddeg.‡ Ni pharhaodd hyn yn hir. Yr oedd y trigolion yn gallu byw—yn cael byd da a helaethwych beunydd—am chwe swllt yr wythnos. A chan fod cysgodau tywyll hen grefyddau trist wedi eu gwasgaru, fe ddawnsid a chenid yn ddibaid. Yr oedd cymaint llewyrch ar y lle fel y tybiai'r trigolion fod y dydd newydd o'r diwedd wedi gwawrio.

Yn 1841 ymgymerodd Owen â goruchwylio'r lle. Yr oedd Finch, olynydd Allen, mor anfoddhaol ag yntau. Cychwynodd Owen yr "Home Colonization Society," ac adeiladodd "Harmony Hall" i drigolion y lle. Cymerwyd ychwaneg o dir, hyd nes yr oedd ganddynt fil o erwau, a gwariwyd £11,900 ar y lle. Teimlwyd fod Owen yn torri dros y ter-

† New Moral World, vi., p. 775.
‡ Ibid, ix., p. 35.

fynau, a galwyd ef i gyfrif. Beïid ef am lenwi'r "New Moral World" a'i weithiau ei hun, a hwythau yn annyddorol ac annarllenadwy. Cyhuddwyd ef o dra-arglwyddiaethu, a diswyddwyd ef o'i le yn Queenwood, ac o gadair y Gymdeithas. Mewn chwe mis, adferwyd ef i oruchwyliaeth Queenwood: ond erbyn hyn yr oedd yn rhy hwyr. Yr oedd y syniad Cymuniaethol wedi colli ei swyn. Yr oedd ymgais wedi bod i gychwyn sefydliadau cyffelyb mewn lleoedd eraill, eithr trodd y cyfan o honynt yn fethiant. Cychwynwyd un o honynt ym Mhantglas rhwng Trawsfynydd a Dolgellau, gan un John Moncas. Yr oedd yma fil o erwau i'w cael; ond er fod llawer o'r tir yn garegog, yr oedd moddion i gadw cant o wartheg a chwe chant o ddefaid; ac yn ychwanegol at hyn yr oedd yno ddigon o ddisgyniad dwfr i gynyrchu gallu gweithfaol mawr os dewisid. Ni roddodd Owen gefnogaeth i'r anturiaeth hon; a gwrthwynebwyd hi yn gryf yn y "New Moral World."* Methiant fu yr ymdrech hon; a serch nad oedd gan Owen ran ynddi hi ac eraill, yr oedd y bai am eu haflwydd-

* Er engraifft, Cyf. vii., tud. 11, 12.

iant yn disgyn arno ef, am eu bod yn seiliedig ar ei gynllun.

Bu gorfod gwerthu Queenwood, a dechreuodd dyddiau'r Gymdeithas ddirwyn i'r pen. Nid oedd cyllid i gynnal y cenhadon; torwyd y cysylltiad rhwng y canghenau a'r cyff; a dirywiodd y Cymdeithasau hyd nes nad oeddynt amgen na chymdeithasau dadleuol.

Bu y Gymdeithas fyw o 1835 hyd 1846. Gadawyd Queenwood yn 1843. Yn 1844, aeth Owen i America, a chyda'r dyddiad hwn, diwedda'r trydydd gyfnod ym mywyd Robert Owen.

## IV.—Y PEDWERYDD CYFNOD, 1844—1858.

### BLYNYDDOEDD DIWEDDAF ROBERT OWEN.

NI syrthiodd i'n rhan erioed orchwyl mwy trist nag olrhain symudiadau Robert Owen yn ystod deunaw mlynedd diweddaf ei fywyd. A chan nad oes unrhyw ddiben mewn cofnodi manylion hanes adfeiliad hen adeilad gogoneddus, ni wneir rhagor na rhoddi yn fyr yr ychydig sydd yn ol o'i hanes. Y mae rhywbeth trist yn yr olygfa ar yr hen wr yn curo'r gwynt ac yn tybio ei fod bob dydd yn ennill buddugoliaeth newydd ar elynion cymdeithas resymol.

Yr unig ansoddair priodol i ddesgrifio ei yni ydyw "aruthrol." Bu drwy y blynyddoedd yn ddiwyd a dyfal yn pregethu dyfodiad y gymdeithas newydd. Fel esiampl o'i yni, gweler yr ymrwymiadau a gadwodd mewn pythefnos yn 1838*,—Gorffennaf 10fed, yn darlithio

* Holyoake. Hist. Co-op. I. 102.

yn Wisbeach; 11eg, 12fed, 13eg, yn Lynn; 14eg, 15fed, yn Peterboro; 16eg, yn Wisbeach; 17eg, yn Peterboro.

O Peterboro aeth ganol nos i Wisbeach. Cyrhaeddodd yno 2.30 y boreu. Cododd am bump, a chyda'r tren wyth teithiodd i Norwich.

Ar y 18fed darlithiodd yno, ac yn y pum niwrnod dilynol, traddododd bum darlith ym March, Wisbeach, a Boston. Yr oedd hyn cyn iddo golli ei afael ar y wlad yn llwyr; ond eisoes yr oedd llawer o'r bobl wedi ei ollwng yn anghof. Yr oedd symudiad mawr arall, sef Siartistiaeth, mewn bri, ac yr oedd ei gynllun ef o weriniaeth lafurawl yn cael ei oresgyn gan y syniad o weriniaeth wleidyddol. Yn 1840 daeth am ennyd i sylw'r cyhoedd. Cyflwynwyd ef i'r Frenhines gan Lord Normanby, ac mewn canlyniad, ymosodwyd yn ffyrnig ar y cyflwynwr a'r cyflwynedig, gan yr Esgob Philpotts o Exeter. Yr oedd yn rhaid i'r gŵr tra pharchedig addef fod cymeriad Owen yn berffaith lân; ond condemniai ei egwyddorion mewn iaith eithafol. Mewn atebiad cyhoeddodd Owen ei *Manifesto*, o'r hwn yr argraffwyd hanner can mil o gopiau. Y mae hyn yn profi fod llawer

eto yn glynu yn dynn ynddo. A phan y cyhoeddodd ei "Amlinelliad o gyfundrefn o gymdeithas resymol," cyfieithiwyd y traethodyn i'r Ellmynaeg, i'r Polaeg, a'r Gymraeg.*

Wedi gwerthu Queenwood, croesodd Owen y Werydd ac arhosodd yn yr Unol Dalaethau hyd 1847. Yr oedd Robert Dale Owen erbyn hyn yn aelod o Dŷ'r Cynrychiolwyr yn Washington, a bu'r tad a'r mab yn dra egniol yn ceisio sicrhau iawn ddefnydd o gymunrodd gŵr o'r enw Smithson. Y canlyniad i'w hymdrechion ydoedd sefydlu'r *Smithsonian Institute* yn Washington. Yn ystod y blynyddoedd hyn, cododd cryn anghydfod rhwng Lloegr a'r Talaethau parthed tiriogaeth Oregon, ac ysgrifennodd Owen lawer i newyddiaduron Washington yn erbyn yr ysbryd rhyfelgar oedd yn bod yn America. Croesodd y Werydd bedair gwaith i geisio dod a'r ddwy lywodraeth i ddealltwriaeth, a llwyddodd. Ar ol ei farwolaeth, dywedai'r *Manchester Examiner*, mewn erthygl arweiniol arno, mai i'w waith

* Gan rai o aelodau y gymdeithas ym Manceinion y cyhoeddwyd y cyfieithiad Cymraeg. (New Moral World, ix., 332). Nid wyf eto wedi dod o hyd i gopi ohono.

egniol ef yn y cyfwng hwn yr oedd yn rhaid priodoli'r ffaith nad aflonyddwyd ar heddwch y byd gan ryfel rhwng Lloegr a Thalaethau America.

Yn 1849 cyhoeddodd Owen y "Chwildroad mewn meddwl ac ymarferiad," ac yn 1850 anfonodd "Gyfres o lythyrau at y ddynolryw." Yn y blynyddoedd hyn trigiannai yn Seven Oaks yng Nghent. Cychwynodd "Robert Owen's Journal" yn Nhachwedd 1850, a pharhaodd i'w gyhoeddi hyd 1852. Yn 1851 deisyfodd ar i'r Llywodraeth wneyd ymholiad i'w gynllun; ac yn ystod yr Arddanghosfa fawr yn y flwyddyn honno rhanodd rai miloedd o draethodau ymhlith yr ymwelwyr, yn Saesneg, Ellmynaeg a Ffrancaeg. Yn 1853 cyhoeddodd y "Rational Quarterly," yr hwn a fu byw am flwyddyn; a chynygiodd ei hunan i unrhyw etholaeth seneddol a'i dewisai heb draul na thrafferth iddo. Yn 1854, aeth drachefn i'r America, ac yno daeth i gredu mewn Ysbrydyddiaeth *(Spiritualism)*. Dyma'r arwydd mwyaf amlwg o wanychiad ei feddwl. Dyma'r gŵr fu drwy ei fywyd yn ymladd dros grefydd resymol yn erbyn crefydd afresymol, a gredai yn yr Anweledig, yn myned i eithaf arall, ac yn

syrthio yn ysglyfaeth i ofergoeledd. Yn y flwyddyn honno hefyd y cyhoeddodd wyth rhifyn o'r "New Existence of Man upon the Earth." Cynhwysai hwn fywgraffiad byrr, ac amlinelliad o'i egwyddorion, ynghyd a phapyrau parthed William Allen, a'i ymweliad â Dublin yn 1823. Y mae ynddo hefyd ohebiaethau o'r byd ysbrydol, oddiwrth ysbrydion anfarwol Benjamin Franklin, yr Arlywydd Jefferson, a Duc Kent; ac i goroni'r cyfan, anfonodd Shakespeare iddo ddrama neu ddwy o wlad y cysgodau. Bellach, drwy gyfrwng yr ysbrydion, nid oedd y gwaith o ddwyn i mewn y mil-blynyddoedd ond gorchwyl cymharol hawdd. Galwodd gyfarfod yn St. Martin's Hall, Longacre, i ddathlu yr amgylchiad yn 1855, a chyhoeddodd gyfres o draethodau dan yr enw—"The Millennial Gazette," i hyrwyddo y gwaith da. Ond go ystyfnig fu'r Mil Blynyddoedd. Yn 1856, galwodd gynhadledd o "ddiwygwyr yr holl fyd," a daeth 410 o honynt ynghyd. Pa un ai diwygwyr oeddynt oll, ynte personau yn chwilio am ychydig ddifyrwch, y mae lle i ameu. Parhaodd y gynhadledd o'r 14eg hyd y 18fed o Fai, a'r tro yma eto yr oedd y chwildroad mawr i gymeryd lle. "Y

mae gweithred bellach wedi ei chyflawni," meddai, "y mae y llwybr yn agored i gynnydd heb derfyn, a chaiff dynoliaeth ddaioni ac undeb, doethineb a dedwyddwch. Y mae fy nghenadwri ar ben."* Pasiwyd un ar hugain o benderfyniadau, ac anfonwyd deisebau i dai y Senedd. Ar y 14eg o Fai, cynhaliwyd "Conference of the Advanced Minds of the World." Gwahoddodd lywiawdwyr y byd i anfon cynrychiolwyr, y wasg i anfon ei hysgrifenwyr,—ac yn wir, estynwyd gwahoddiad i bob dosbarth y gellid dychmygu am dano, anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd hon. Yn ei dro, cyfarchodd Robert Owen bob dosbarth, a chyhoeddwyd adroddiad manwl o'r holl weithrediadau yn y rhifynnau diweddaf o'r "Millennial Gazette." Ym Mehefin aeth i gyfarfod a alwyd i drafod addysg yn "Ystafelloedd Willis," dan lywodraeth y Tywysog Albert.

Yn Hydref, 1857, aeth i Gynhadledd ar Gymdeithaseg *(Social Science)* yn Birmingham, a darllenodd bapyr yno. O barch iddo, fe roddwyd iddo wrandawiad. Aeth i gyfarfodydd y gynhadledd yn y flwyddyn ddilynol yn Llynlleifiad. Er ei

* The Millennial Gazette, v. 2.

fod yn wan iawn rhoddwyd ef ar y llwyfan, a chyflwynwyd ef i'r cyfarfod gan ei hen gyfaill, yr Arglwydd Brougham. Dywedodd ychydig eiriau a thorrodd i lawr. Rhoddwyd ef mewn gwely mewn gwesty, ac yno y gorweddodd am bymthegnos. Yna penderfynodd fyned i'r Drefnewydd. Yr oedd yr ymdeimlad yn bod ynddo fod amser ei ymddatodiad yn neshau, a dymunai farw yn yr ystafell y ganwyd ef ynddi. Aeth yno, ac yr oedd yn llawn brwdfrydedd dros ddiwygio y dref; a cheisiodd gan y Rheithor ddwyn gwelliantau mawr oddiamgylch. Cafodd beth adgyfnerthiad a dychwelodd i Lynlleifiad. Eithr i ba ddiben ni wyddai neb. Yna dychwelodd drachefn i'r Drefnewydd, ac ar y ffordd o'r Amwythig ceisiai berswadio ei gydymaith fod rhyw naws neilltuol yn perthyn i awyr ei hen wlad. Bu farw yn y gwesty yno ar y 17fed o Dachwedd 1858, ym mhresenoldeb ei fab, Robert Dale. Ei eiriau diweddaf oeddynt—"Y mae ymwared wedi dod." Claddwyd ef ym medd ei dadau yn hen fynwent Eglwys Fair, a daeth llawer o'i ddisgyblion yn y byd cydweithiol a chymdeithasol i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Felly bu farw Robert

Owen yn ei dref enedigol. Bu yno ddwywaith ar ol ei gadael cyn ymlusgo yno i farw. A chyfyd deigryn i'r llygad wrth feddwl am y bachgen aeth oddicartref dri chwarter canrif cynt, ac a ddringodd i fyny i binacl uchaf llwyddiant masnachol, ac a aberthodd ei holl dda, ac hyd yn oed ei enw da, o gariad at ei gyddynion, yn ymlwybro yn ol, yn llesg, yn unig, i farw, ac i orwedd gyda'i dadau yn ei hen wlad, wedi ei anghofio gan laweroedd y ceisiodd eu lles, ac wedi gorffen byw cyn marw.

## V.—Y DYN A'I WAITH.

### I. ROBERT OWEN, Y DYN.

[Ei dynerwch.—Ei gydymdeimlad â'r gweithiwr. —Gwendid y Cymro.—Ei ymlyniad wrth ei bwnc mawr.—Y "dirgelwch."—Ei ddychymyg.—"A man of one idea."—Desgrifiad Hazlitt.—Barn Mr. Leslie Stephen.—Desgrifiadau Macaulay a Miss Martineau.—Gonestrwydd Owen.—Barn Lord Brougham.—Dirmyg Cobbett.—Barn Lecky.—Owen fel siaradwr mewn cymdeithas ac ar y llwyfan. —Barn Bentham.—Dull mawreddog Owen.—Robert Owen y Cymro.]

PA fath ddyn ydoedd Robert Owen? Bu gymaint ger bron y cyhoedd yn ei ddydd fel nad oes prinder defnyddiau i dynu rhyw fath o lun o hono. Efallai mai ei nodwedd bennaf ydoedd ei dynerwch. Yr oedd yn neilltuol addfwyn a charedig. Carai blant yn angerddol. Siaradai yn dirion a theg am olygiadau pobl ereill; ac y mae hyn yn dystiolaeth uchel i'r ochr hon o'i gymeriad, pan y cofiwn gadarned ydoedd ei ffydd yn ei farn ei hun. Yn ei deulu, yr oedd hyn yn amlycach na dim arall ynddo. Er cryfed ei farn am ofergoeledd crefydd, eto ni

cheisiodd ymyraeth a chrefydd ei briod, a chaniataodd iddi addysgu y plant yn ei ffydd ei hun; ac ni cheisiodd un adeg ddadwneyd ei gwaith.* Ymddygai yn gyffelyb at ei weithwyr. Ni chyhuddwyd ef erioed o geisio gwyrdroi eu golygiadau crefyddol,† eithr fe dalodd ei hunan gyflog gweinidog i'w gwasanaethu. Rhydd Rt. Dale Owen hanesyn prydferth, yr hwn a ddanghosa dynerwch Owen. Yr oedd y goedwig fechan ar y tir yn Lanark Newydd yn waharddedig i'r gweithwyr. Un diwrnod gwelodd ddeuddyn ieuanc yn caru yn y coed. "Nid ydynt yn ein gweled," meddai Owen wrth ei fab, "awn yn ein hol; os cyfarfyddaf hwynt, rhaid fydd eu gorchymyn o'r lle; ac y mae ganddynt gymaint o waith a chyn lleied o bleser."‡

O hyn y tarddodd y cydymdeimlad dwys hwnnw â'r gweithiwr a enillodd iddo gymaint serch a dylanwad. Meddai Ebenezer Elliot y bardd || wrtho, mewn anerch-

* R. D. Owen. "Threading my Way," tud. 40.

† Adroddiad Cyfeisteddfod Duc Kent, 1819. Cyfrol IA. o Hunan Gofiant Owen, tud. 247.

‡ Threading my Way, p. 46.

|| Awdwr yr emyn godidog, "When wilt thou save the people?"

iad gyflwynwyd iddo gan rai o'r dosbarth gweithiol yn 1834,—"Chwi ddaethoch i'n plith, yn wr cyfoethog at dylodion, ac ni ddarfu i chwi ein galw yn boblach *(rabble)*. Yr oedd hwn yn brofiad newydd i ni. Nid oedd gwawd ar eich genau, na dirmyg yn llechu yn eich llais." Dyna meddai Elliot ddylai fod ar fedd Owen,—"In a land of castes, Owen was a man."

Dylid cofio am Owen, mai Cymro ydoedd, a'i fod yn meddu nerth a gwendid pob Cymro. Yr oedd yn rhy dueddol i neidio i gasgliadau heb ymresymu yn ddigonol, ac o'r herwydd lle nad oedd ei gasgliadau yn anghywir yr oeddynt yn anaddfed. Cafodd ei dwyllo gan yr Ysbrydyddwyr, ac ni chymerodd hamdden i ymholi i ddilysrwydd eu moddion, cyn ymrestru fel disgybl iddynt. Am yr un rheswm, gwelwn ef yn frwd dros un peth heddyw, ond erbyn yfory yr oedd ganddo destyn brwdfrydedd newydd. Ymneilltuodd o'r Cyfeisteddfod Seneddol yn 1817, i sefyll fel proffwyd dymchweliad crefydd. Gadawodd Motherwell yr un mor ddisymwth yn 1826 i ofalu am dani ei hun, ac aeth yntau i America i gychwyn sefydliad Harmony Newydd.

Eithr, serch ei fod yn gyfnewidiol fel hyn, fe lynodd yn dynn yn nhestyn ei bregeth hyd y diwedd. Mewn amser ac allan o amser o 1817 hyd 1858, fe gyhoeddodd ei syniadau nes blino'r wlad. Priodola rhai o'r haneswyr aflwyddiant ei apostolaeth faith i'r blinder a barodd drwy ei bregeth undonog. "Repetition," meddai Sidney Smith, "is the only figure of speech worth anything." Yr oedd hyn yn rhan o gredo Owen hefyd. Modd bynnag, fe adroddodd ac ail adroddodd, ac adroddodd drachefn a thrachefn, nes byddaru ei gynulleidfa. Ac eto tybiai ei fod yn dweyd rhywbeth newydd bob tro y cyfarchai gyfarfod. Yr oedd yr ymadrodd —"Yr wyf yn myned i ddatguddio i chwi ddirgelwch" beunydd yn ei enau; ond erbyn datguddio'r dirgelwch, yr un ydoedd a ddatguddiwyd ganddo lawer tro cynt.

Gwelsom ysgrifennu o ryw un amdano mai ei wendid ydoedd ei ddiffyg dychymyg. Eithr credwn yn hollol i'r gwrthwyneb, a hynny oherwydd ei fod yn Gymro; gormod o ddychymyg oedd gwendid Robert Owen. Yr oedd y chwe mis nesaf yn sicr o ddod a bywyd newydd i

gymdeithas, a chynhwysai'r bywyd newydd hwn bopeth y gellid ei ddymuno neu ei ddychmygu. Oni thymherer y dychymyg gan y deall y mae yn sicr o arwain ei berchenog i enbydrwydd. Felly y bu yn hanes Owen. Yr oedd ei ddychymyg yn edrych yn rhy bell ymlaen i adael iddo weled yr anhawsterau agos. Yr oedd o flaen pob peth yn *idealist*, ac fel pob *idealist* yn tybio mai gorchwyl hawdd fyddai goresgyn pob rhwystr ar ffordd yr *ideal*. Cam bychan i Robert Owen ydoedd o ddadansoddi achosion trueni y wlad i ddileu y cyfryw. Eithr mewn gwirionedd yr oedd y pellder yn fwy nag y gallai un genhedlaeth neu un dyn ei dramwy. Eto, er methu lawer tro, serch myrdd o rwystrau, credai Owen yn gryf fod dydd Jiwbili gerllaw, ac mai'r cyfan oedd angenrheidiol ydoedd ei gyhoeddi.

"A man of one idea," y geilw Hazlitt ef. Yr un syniad hwn ydoedd,—"Efe ei hun a melin Lanark Newydd." "Fe garia," medd Hazlett, "y syniad gydag ef yn ol a blaen rhwng Glasgow a Llundain, heb wneyd cyfrif o'r draul arno drwy dramwy cymaint, a disgwylia ei gael yn Llundain mor bur a pherffaith ag yn Glas-

gow. Ofer ydyw pob gwrthwynebiad iddo,—

> "Nor Alps, nor Appenines can keep him out
> Nor fortified redoubt."

Mor ddisymwth ydoedd ei ymgyrch fel y cymerodd feddiant ar beiriant argraffu y *Times*, ac argraffodd ddeng mil o ddarluniau o'i bentrefi—a phob darlun yn brawf eglur a therfynol fod ei holl gynllun yn ymarferol.

Pan ar y llwyfan, ymddygai fel ysgolfeistr, "ac wedi gorffen, y mae yr areithiwr hyawdl a phybyr yn cymeryd ei het ac yn disgyn o'r llwyfan, ar ol darllen ei lith o wirebau *(truisms)* fel hysbyslen chwareudy neu hysbysiad apotheceri, a phe ceisiech ei oddiweddyd wrth y drws i ddweyd wrtho . . . . fod Mr. Southey yn ei lythyr diweddaf at Mr. W. Smith yn ymddangos yn dra ffafriol i'w gynllun, edrycha arnoch gyda gwen dosturiol am oferedd pob gwrthwynebiad a gwagedd pob cefnogaeth.*

"One of those intolerable bores who are the salt of the earth," ydyw desgrifiad Mr.

*Hazlitt, Table Talk, p. 89 (Ed. 1869).

Leslie Stephen o hono. Dywed Macaulay ei hanes mewn llythyr ar yr 8fed o Fehefin, 1831, mewn dawnsfa, yn ceisio argyhoeddi Shiel o wirionedd cydweithrediad, ac yna yn profi i'w briod—a hi yn Babyddes—nad oedd cyfrifoldeb moesol yn bod. Dywed Miss Martineau ddarfod iddo geisio ei hargyhoeddi hi o'r un peth.† Ychwanega fod ei onestrwydd a'i sirioldeb wedi ei swyno; ac y byddai ei haelfrydedd a'i foesgarwch yn foddion i'w wneyd y dyn mwyaf poblogaidd yn y wlad, pe gallai wahaniaethu rhwng haeriad ac ymresymiad, ac ymatal oddiwrth flino ei gyfeillion gan ei ddysgeidiaeth ddigyfnewid.

Yr oedd ei onestrwydd tuhwnt i ddadl. Yn yr ymdrafodaeth yn Nhy'r Cyffredin, ar gynygiad Syr W. Crespigny yn Rhagfyr, 1820, fod ymholiad i gynllun Owen yn cael ei wneyd, dywedodd Lord Brougham am dano,—"Nid wyf yn petruso dweyd fy mod yn hollol argyhoeddedig nad oes dyn mwy gonest, caruaidd a syml i'w gael ar wyneb y ddaear. . . . Y mae ei onestrwydd gymaint fel na buaswn yn

† Hansard. Dec. 14, 1820.

credu ei fod yn bosibl, onibae fy mod yn gwybod drwy brofiad ei fod yn ffaith."‡ Cyfrifai hyn am lawer o ddylanwad Owen. Ni ddarfu i neb erioed ameu nad dymuniad gonest am les y tlawd oedd yn ei gymhell. Ni cheisiodd enwogrwydd oddieithr i'r diben o'i ddefnyddio dros y gweithiwr. Arweiniwyd ef yn ei holl weithrediadau gan sel syml a diragrith dros ddynoliaeth. Serch fod llawer yn gwawdio, ac yn ei ddirmygu (fel Cobbett), eto ni feiddiodd neb sibrwd cyhuddiad yn erbyn dilysrwydd ei amcanion. Addefai Allen y Crynwr hyn, a pharchai ef o'r herwydd. Dywed Lecky (Democracy and Liberty, i., 262) ei fod yn ddyn o ddyngarwch dyfal ac o gymeriad pur. Dyna farn unfrydol pawb o'i gydnabod—mai ei gariad diragrith at ddynion ydoedd coron ei gymeriad. Y gonestrwydd hwn a'i harweiniodd i helynt a thlodi, a barodd iddo ddinistrio ei ddylanwad drwy gondemnio crefyddau, a barodd iddo dalu dyledion y gyfnewidfa pan nad oedd cyfraith yn galw am hynny. Ac fel pob dyn a garo ei frawd yn onest a diragrith, bu raid iddo aberthu ei eiddo a'i hunan ar allor y gwasanaeth hwnnw.

‡ Autobiography, I. 230, 233.

Yr oedd yn siaradwr hyawdl ar y llwyfan ac argyhoeddai, nid drwy rym ymresymiad, eithr drwy y difrifwch angerddol a nodweddai ei ymadrodd. Yr oedd ei iaith lafar yn goeth a detholedig.* Mewn cymdeithas yr oedd yn ymddiddan cystal a'r mwyaf dysgedig ei ddydd. "Brilliant conversationalist" ydyw gair Mr. Holyoake am dano. Y mae ei weithiau yn cynnwys rhai llewyrchiadau llenyddol disglair, ond yn gyffredin, nid ydyw ei arddull yn denu Y mae cryn dipyn yn yr hyn ddywedodd Bentham,—"Owen begins in vapour and ends in smoke.' Nid yw yn angenrheidiol gwneyd rhagor na dethol dau neu dri o ansoddeiriau unrhyw ysgrifenwr i ddod o hyd i ddigon o ddefnyddiau i amlinellu ei holl athroniaeth. Tri ansoddair mawr Owen oedd *all*, *new*, a *superior*. Nid llawer o ddychymyg sydd eisiau i weled mai amcan Owen ydoedd sicrhau amgylchedd newydd a chymeriad tra rhagorol i bob dyn. Mawreddog a chwyddedig ydyw ei ieithwedd yn gyffredin. Nid oes gwell esiampl o honi na theitl un o'i gylchgronau — "A Journal explanatory

* Holyoake, Sixty Years of an Agitator's Life, p. 121.

of the means to well place (and well feed, well clothe and well lodge), well employ and well educate (well govern and cordially unite) the populations of the world" (1850).

Robert Owen, medd Holyoake, ydoedd yr unig Gymro a gyfarfyddodd erioed na thybiai mai Cymru oedd yr holl fyd. Diffyg adnabyddiaeth o Gymry a barodd i Mr. Holyoake ddweyd y geiriau hyn, ac a gyfrifa am ffurf yr ymadrodd. Y mae y gweddill yn wir. Ni ddarfu i Owen gyfyngu ei waith i un wlad nag i un genedl. Teithiodd lawer, yn Ewrob ac America. Eithr, meddai Mr. Holyoake yng Nghyngrair Gydweithredol Caerdydd (Mehefin 10, 1900), "bu Owen yn ffyddlawn i Gymru ymhob man." Pe byddai Holyoake wedi rhoddi ychydig fanylion i ni buasem yn ddiolchgar. Yr unig gyffyrddiad o eiddo Owen a'i waith a Chymru, ydoedd y cyfieithiad o'i "Amlinelliad o'r Gyfundrefn Resymol o Gymdeithas," a'r gymuniaeth gychwynwyd yn Nhrawsfynydd, i'r hon yr oedd Owen ei hun yn elyniaethus.

Eithr er na wnaeth Owen ddim arbennig dros Gymru, eto gall Cymru ymfalchio ddarfod iddi ei roddi i'r byd, ac wedi iddo orffen ei waith, ddarfod iddo yntau ddychwelyd i'w mynwes i orffwys ar ol ei faith a llafurus fywyd, gan ddweyd ar ei goror fod ei hawel hi yn fwy bywiol nag awelon eraill byd.

## II. ROBERT OWEN—EI NEGES.

[Pa le roddir i Owen ymhlith y proffwydi? Canys yr oedd yn broffwyd, ac fel pob proffwyd, yn cael ei ystyried yn eithafol gan ei oes ei hun. Erbyn heddyw yr ydym yn gallu edrych yn ol, ac o'r pellter hwn yn alluog i esbonio ei fywyd a'i waith, a rhoddi iddynt eu lle priodol yn hanes cynnydd a datblygiad cymdeithasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.]

NID ceisio yr ydym yn awr benderfynu lle Owen fel meddyliwr. Yn hytrach ein gorchwyl presennol fydd dod o hyd i'r genadwri oedd ganddo, a'i roddi yn y lle a berthyn iddo ymhlith y bobl hynny sydd drwy eu bywyd a'u gwaith wedi gadael eu hôl ar fywyd y wlad.

Yr oedd cenadwri Owen yn un i bob dosbarth o gymdeithas. I'r gwneuthurwyr dysgodd eu cyfrifoldeb i'w gweithwyr. Efe ydoedd apostol iawnderau y dosbarth gweithiol. "Yr oedd ei felin yn Lanark Newydd yn gynllun perffaith o'r hyn y gallai arweinydd mawr mewn masnach ei wneyd, yr hwn, ac efe hefyd yn ceisio elw

—nid anghofia ei fod yn gyfrifol am fywyd a chysur ei weithwyr."* Danghosodd Owen i'w gyd-wneuthurwyr fod yn bosibl gwneyd elw *a* gofalu am eu gweithwyr; ac yn ychwanegol at hyn, fod y cyfryw ofal yn talu iddynt yn y pen draw. Ehangodd Owen y wers hon a chymhwysodd hi at y bendefigaeth a'r dosbarth uchaf mewn cymdeithas. Eu dyledswydd hwy ydyw gofalu am y rhai sydd is na hwynt yng ngraddfa cymdeithas.

Yr oedd yn gallu ar un adeg rifo ymhlith ei gyd-weithwyr yng ngwasanaeth y gweithwyr rai o brif bendefigion y wlad; ac yr oedd y bendefigaeth yn yr oes honno i fesur mawr yn derbyn geiriau y proffwyd ac yn eu gwneyd. O'r cylch brenhinol i lawr i'r marchog a'r "gwir anrhydeddus," yr oedd yr uchelwyr yn ddyngarwyr brwd, ac ni bu amser, cynt na chwedi, pan y bu gan y dosbarthiadau uchaf mewn cymdeithas ddyddordeb mwy cyffredinol a gwirioneddol ym mywyd ac amgylchiadau y dosbarth gweithiol.

I'r gweithwyr, fe ddysgodd Owen annibyniaeth, neu yn hytrach, *hunan-ymddi-*

* Lecky. Democracy and Liberty, tud. 62.

*byniaeth*. Pan y pallodd cefnogaeth foneddig, trodd Owen at y gweithwyr, a thrwyddo y daethant i ddeall mai mewn undeb y mae nerth; ac nad oedd dim allai eu goresgyn, a hwy yn unig. Cododd hwynt o'r anobaith yr oedd cynifer o honynt wedi syrthio iddo, ac fe osododd y dosbarth gweithiol ar ei draed. Dysgodd iddo edrych i fyny a chyrchu at nod uchel gwlad berffaith, y cydnabyddir ynddi hawliau ei gweithwyr fel ei phrif ddinasyddion.

Nid oedd yn foddlawn i undeb y gweithwyr fod yn amddiffynol yn unig, eithr pwysodd arno i fod yn ymosodol hefyd. Y ffurf fwyaf effeithiol o ymosodiad ydoedd drwy gydweithrediad.

Cafodd y Trefnidwyr wers gan Owen yr oeddynt mewn angen mawr am dani. Eu credo hwy ydoedd mai hunan-elw oedd prif os nad yr unig symbyliad i waith ac i ennill cyfoeth; ac mai drwy adael y symbyliad yn hollol ddilyffethair y sicrheid lles a budd cymdeithas yn gyffredinol. Canlyniad hyn ydoedd darostyngiad dyn yn y gweithfeydd i'r un safon a'r peirianau. Nid oedd ond megis rhan o'r peirianwaith masnachol drwy yr

hwn yr ymgyfoethogai'r masnachwr. Dysgodd Owen, er fod dyn yn beiriant, mai peiriant byw ydoedd, wedi ei wneyd yn rhyfedd ac ofnadwy, yn meddu enaid a phosibilrwydd cymeriad da. Erbyn heddyw, y mae effaith hyn i'w weled ar Drefnidedd,—y mae y ffaith fod y gweithiwr yn *ddyn* yn dwyn dylanwad mawr ar athroniaeth y Trefnidwyr, ac yn lliwio y mynegiad o'r deddfau hynny sydd yn rheoli y byd masnachol.

Rhan o'i neges ydoedd y lle roddai i addysg. Gwelwyd eisoes y lle mawr oedd i addysg yn Lanark Newydd ac yn ei gynlluniau. Nid oedd ei oes yn cydnabod angenrheidrwydd addysg i'r gweithiwr, eithr fe gododd Robert Owen ei lef yn erbyn y culni hwn, ac iddo ef, i fesur mawr, y mae y ddwy genhedlaeth ddiweddaf yn ddyledus ddarfod iddynt dderbyn addysg o fabandod i ieuenctyd.

Serch ei syniadau rhyfedd ar grefydd, yr oedd ganddo wers i'w dysgu i'r byd crefyddol. Yr oedd yr Eglwys wedi ymddihatru, yn anymwybodol iddi ei hun, oddiwrth ei dyledswydd tuag at ddyn yn y byd hwn, ac wedi ei drosglwyddo i'r Trefnidwyr. Yng nghaledi dechreu y ganrif ym-

ddanghosai yn ddifater a diymadferth. Argyhoeddwyd hi gan Owen fod ei chyfrifoldeb yn cynnwys bywyd dyn yn y byd hwn yn ogystal ac yn y byd a ddaw. Yr oedd sel dyn digrefydd dros ddynoliaeth yn gerydd cyhoeddus iddi. Yr oedd addysg gyfoethog hyd yn oed yn ei elyniaeth iddi. Digiodd Owen gyntaf wrth yr Eglwys oherwydd ei hymraniadau, ac yr oedd colli ymlyniad gwr fel hwn am y fath reswm yn llefaru yn uchel yn erbyn pechadurusrwydd y cyfryw ymraniadau.

Nid yn unig yn hyn ond hefyd yn ei olygiadau ar briodas, fe orwedda gwahaniaeth mawr rhwng Owen a'r Eglwys. Ond hyd yn oed yn ei olygiadau peryglus ar sefydliad priodas, yr oedd yn mynegi gwirionedd gwerthfawr. Nid caniatad gwladwriaeth na bendith eglwys sydd yn cyfreithloni priodas. Serch gwirioneddol yn unig sydd yn sancteiddio uniad deuddyn. Yn y nefoedd—ac nid mewn eglwys na swyddfa,—y gwneir gwir briodas. Y mae y dyn hwnnw sydd yn priodi er mwyn gallu yn ddiogel dynnu'r ffrwyn oddiar ei nwydau yn pechu yn erchyll ac anfaddeuol yn erbyn Duw a dynoliaeth. Serch aruthrol Owen at ddynoliaeth oedd

wrth wraidd y golygiadau a phob golygiad arall o'i eiddo. Ac nid yw yn bosibl rhoddi gwell crynhodeb o gynnwys ei holl genadwri i oes faterol a hunanol nag yng ngeiriau Robert Burns,--

"A man's a man for a' that."

Y mae dyn yn ddyn, pwy bynnag ydyw, a pha beth bynnag ei amgylchiadau. Ac i hyn yr anfonwyd Robert Owen at y genhedlaeth honno, fel y dysgai iddynt barchu *dyn*, oherwydd ei greu ar lun a delw Duw.

III. ROBERT OWEN—EI LE.

PA le sydd i Robert Owen ymhlith meddylwyr ei oes? Yr oedd yn byw ar adeg yn hanes cymdeithas pan yr oedd mwy o'i hastudio a meddwl uwch ei phen nag a fu erioed cyn hynny. Ac yn yr astudiaeth cymerai meddyliau mwyaf diwylliedig y cyfnod eu rhan. Yr oedd Owen yn amddifad o ddisgyblaeth meddwl; ac y mae yn syn meddwl ddarfod iddo, ac yntau mor ddiddysg, ennill y fath sylw yn yr oes honno. Fe ddiwylliodd ei feddwl modd y gallai sefyll gyda goreuon ei ddydd: "Et le ton géneral de ses écrits et les recherches qu'ils supposent attestent avec quelle patiente ardeur il chercha a combler cette lacune fondamentale."*

Y mae bron yn amhosibl penderfynu pa ddylanwadau fu'n ffurfio meddwl Owen. Gwyddom iddo fyfyrio llawer

* Reybaud, Etudes, p. 150. "Ac y mae tôn gyffredinol ei ysgrifeniadau a'r ymchwiliadau a gyfleir ganddynt yn tystio gyda pha frwdfrydedd amyneddgar y ceisiodd lenwi y diffyg sylfaenol hwn."

uwchben doethineb Seneca pan yn fachgen ieuanc; ac iddo ddarllen llawer am deithiau ac ymchwiliadau mewn gwledydd pell. Hyn y mae yn debyg a enillodd iddo ddyddordeb mewn dynion, a chydymdeimlad â dynoliaeth. Tebyg yw ddarfod i Rousseau ddylanwadu arno i fesur. Y mae ei draethodau ar ffurfiad cymeriad yn dangos fod arno beth dyled i'r "Contrat Social."†

Yr oedd Owen yn holiol afiach yn ffydd drefnidol yr oes. Yr oedd y Trefnidwyr yn credu yn gadarn mewn cystadleuaeth. Yr oedd Owen yn credu yr un mor gadarn mewn cydweithrediad. Yr oedd y naill fel y llall yn ymbalfalu yn eu ffyrdd eu hunain i geisio cymhwyso deddfau anianol at gymdeithas. Er na wyddent am ddeddfau goroesiad y cymhwysaf, a chyfaddasiad cynheddfol *(functional adaptation)* mewn natur, eto yr oedd y Trefnidwyr yn cyhoeddi y naill ac Owen yn cyhoeddi y llall o honynt yn eu cysylltiadau cymdeithasol. Drwy gystadleuaeth

† Gormod yw dweyd (gyda Reybaud) fod tudalenau cyfain o'r *Contrat Social* wedi eu copio yn yr "Essays on the Formation of Character." Ymddangosodd tri chyfieithiad o'r *Contrat Social* yn Saesneg erbyn 1795.

yr enilla'r cymhwysaf y lle y mae oherwydd ei gymhwysterau yn ei haeddu. Drwy gydweithrediad, meddai Owen, y diwyllir y galluoedd hynny sydd mewn dyn i wneyd y gwerth goreu sy'n bosibl ac y derbynia dyn yr amgylchedd briodol i helpu'r diwylliant hwn. Gwelai y Trefnidwyr ac Owen yn y deddfau hyn unig obaith cynnydd masnachol. Ffurf eithafol ac amrwd a roddodd Owen ar yr egwyddor; ac esgeulusodd elfennau pwysig; o'r herwydd collodd lawer o'i ddylanwad fel meddyliwr ymhlith dynion deallus.

Gwelodd yn eglur mai effaith dysgeidiaeth y Trefnidwyr fyddai ehangu'r ymherodraeth, a chynhyddu'r cyfoeth yn y wlad. Cododd Owen ei lef yn erbyn hyn gan gyhoeddi yn ddibaid mai unig amcan a goreu golud cymdeithas ydoedd gwella dyn yn gorfforol, meddyliol a moesol. Sail drefnidol ei gyfundraeth ydoedd mai canlyniad ymdrechion dynion ydoedd pob cyfoeth; ac mai prif ddiben cyfoeth ydoedd diwallu anghenion dyn; ac mai'r unig ffordd i'w symbylu i wneyd ymdrechion mawr ydoedd diwallu ei holl anghenion yn helaeth ac heb ddannod. Y cam cyntaf mewn diwygiad trefniadol ydoedd

dileu elw a difodi'r canolwr. Gwraidd pob drwg ydoedd y posibilrwydd o wneyd elw ar wir werth. Wrth wneyd elw yr oedd y pris yn myned yn fwy na'r gwerth. Eithr nis gallai y pris fyned yn fwy na'r gwerth oddieithr fod y galwad yn gyfartal a neu yn fwy na'r cyflenwad. Yr oedd prynu dan, a gwerthu dros wir werth yn lladrad un ai oddiar y cynhyrchwr neu'r defnyddiwr. Er mwyn cael cyfnewid teg o gynyrchion yr oedd felly yn rhaid penderfynu beth ydoedd gwir werth. Gwir werth ydyw y draul o gynhyrchu. Cynhwysa hyn yn gyntaf gyflog cyfalaf a chyflog llafur; hynny yw, tal am lafur yn y gorffennol a thal am lafur presennol. Cynrychiolir cyfalaf, neu lafur y gorffennol gan beiriannau, ac adeiladau a holl foddion cynhyrchu; a'r cyfiawn dal iddo ydoedd yr hyn fyddai ddigonol i gadw'r arfau mewn adgyweiriad, i ychwanegu atynt, ac i sicrhau diogelwch yn wyneb peryglon *(risks)* masnachol. Yr un modd yr oedd tal y gweithiwr i fod yn ol ei angen, hynny yw, digon i'w gadw mewn iechyd, i ddiwyllio ei feddwl, a gwella ei gymeriad. Nid oedd Owen yn ceisio dangos pa fodd y gellid penderfynu pa

beth oedd "ddigon." Disgwyliai am ryw fath o wyddoniaeth gymdeithasol i wneyd â chymdeithas, yr hyn yr oedd fferylliaeth ac anianeg wedi ei wneyd â mater.

Eithr os dileid elw, yr oedd yn rhaid difodi'r ysbryd elwgar. Ac os difodid hwn byddai'r symbyliad i ymegnio yn diflannu. Byddai, meddai Owen, eithr diflanna mewn symbyliad uwch, sef yn y brwdfrydedd cydweithredol, ac yn y sel dros gywreinrwydd cynhyddol yn y gweithiwr. Nid trachwant yn unig all gasglu cyfalaf. Fe wneir hynny gan ddylanwadau eraill. Fel y sylwa Marshall, fe gynhydda cyfoeth drwy arferiadau *(customs)*, drwy ddarparu ar gyfer, a sylweddoli'r dyfodol, a thrwy nerth serch teuluaidd. Mynnai Owen ehangu'r serch teuluaidd hwn fel ag i gynnwys yr holl bobl. Drwy gydweithrediad a chyfnewid cyfiawn yr oedd adenedigaeth cymdeithas yn unig yn bosibl.*

* Fe welir oddiwrth yr uchod i ba amcan y sefydlwyd y Gyfnewidfa Lafur. Yr oedd y canolwr yn diflannu drwyddi. Yr oedd Proudhon yn ei lythyrau i'r wasg yn 1848—"*Programme de l' association progressive, &c,*" yn

Nid Owen ydoedd y cyntaf i godi ei lais o blaid diwygiad cymdeithasol yn y wlad hon. Yn 1793 cyhoeddodd William Godwin (1756—1836) ei *Political Justice* a cheisiai ynddo adrefnu egwyddorion gwleidyddol yng ngoleuni digwyddiadau diweddar yn Ffrainc ac America. Yr oedd ei gymdeithaseg yn rhyw fath o gyfuniad o gymuniaeth bur gyda'r hunanoliaeth *(individualism)* fwyaf anarchaidd. Amcanai drwy ei ddysgeidiaeth ddymchwelyd a chwyldroi y sefydliadau oedd yn bod ar y pryd. Eithr ni bu ei ddylanwad yn fawr; ac ni byddai yn werth sylw onibae i William Thompson ddatblygu ei syniadau, a thrwy gyfrwng y Symudiad Owenaidd eu lledaenu. Yr oedd Godwin fel Owen yn ceisio yn fwy arbennig brotestio yn erbyn hunangais a chydymgais, meithrin arallaeth *(altruism)*, a sefydlu cyfundrefn gymuniaethol, yn hytrach na chymeryd pethau fel yr oeddynt a cheisio eu gwella. Newid yn hytrach na gwella,

cyhoeddi yr un syniad. Sefydlwyd y *Banque d' Exchange* neu *Banque du peuple* i ddiddymu rhent a llog drwy roddi coel *(credit)* yn rhad. Yr un peth ydoedd amcan hyn a difodi'r canolwr.

chwyldroad yn hytrach na diwygiad, ydoedd y nod y ceisiai y ddau gyrchu ato. Yr oedd un Charles Hall hefyd wedi cynnyg ffurf o ddiwygiad drwy ddosrannu'r tir rhwng teuluoedd. Addefai Owen fod hyn yn well na dim,* ond ar y cyfan tuedda i wrthod yr egwyddor.† Cafodd William Thompson‡ fwy o sylw na Godwin neu Hall. Yn 1824 ysgrifennodd lyfr yn cynnwys ei syniadau am ad-drefniad cymdeithasol.§ Ei amcan ef ydoedd cymhwyso syniadau Godwin at gyfundraeth Owen. Gwel yn sefydliad pentrefi cydweithredol y moddion i symud pob un o anfanteision y gweithiwr, drwy ddileu rhent a llog.

Yn Ffrainc yr oedd hefyd fywiogrwydd mawr yn yr un cyfeiriad. Yr oedd Rousseau hanner can mlynedd cynt wedi deffro meddylwyr i ystyried materion cymdeithasol. Dysgodd Rousseau mai

* Yr adroddiad i swydd Lanark.

† Economist, i. 49.

‡ Bu ef farw yn 1833.

§ "An enquiry into the Principles of the distribution of wealth most conducive to human happiness, applied to the newly proposed system (Owen's) of voluntary equality of wealth." Aeth drwy dri argraffiad.

eiddo personol *(private property)* oedd wrth wraidd y drwg oedd wedi goddiweddyd yr holl fyd: ac yn yr athrawiaeth a elwid "Economic Politique" y mae dechreuad yr hyn a elwir heddyw yn *State Socialism*. Cafodd Rousseau ddylanwad mawr. Iddo ef i fesur helaeth y mae yn rhaid priodoli y Chwyldroad Ffrengig. O'i ysgrifeniadau ef tarddodd cynlluniau aneirif o ddiwygiad cymdeithasol. Ynddynt y daeth Mably, Morellet a Fichte o hyd i'w Cymuniaeth, a Bakunin i'w Anarchiaeth. Ac iddynt hwy y mae yn rhaid olrhain syniadau St. Simon a Fourier, y ddau ddiwygiwr cymdeithasol mawr mewn bri yn nydd Owen. Yr oedd y tri wyr hyn yn cychwyn oddiar sylfaeni gwahanol, ac y mae yn syn gweled fod Owen wedi cyrraedd i gasgliadau mor hynod o debyg i eiddo St. Simon a Fourier. Dyledswydd y Llywodraeth i ofalu am fuddiannau y dosbarthiadau isaf mewn cymdeithas *(State Socialism)*, hawl pob dyn i lafur ac addysg, dyna gnewyllyn cyfundraeth St. Simon. I ddwyn hyn oddiamgylch yr oedd moesoldeb newydd yn angenrheidiol, ac i sicrhau moesoldeb newydd yr oedd yn rhaid cael crefydd

newydd. Yr oedd St. Simon wedi syrthio dan ddylanwad Comte; ac mewn canlyniad yr oedd yn cyhoeddi fel y grefydd newydd, rhyw fath o *Positivism*, gyda sawr Gristionogol arni. Yn ei "Nouveau Christianisme" (1825) gesyd i lawr brif elfen moeseg y grefydd newydd—sef dyledswydd rhannau uchaf cymdeithas i ofalu am y rhai fyddo oddi tanynt. Yr oedd Fourier yn y cymhwysiad o'i egwyddorion yn dod hyd yn oed yn agosach na hyn at Owen. Cyhoeddodd ei *Theorie des quatre Mouvements* yn 1808; eithr ni chafodd fawr sylw hyd nes yr aeth ysgol St. Simon dan gwmwl yn 1832. Yr oedd yr ysbryd pedair onglog yn ei feddiannu yntau. Anogai osod o 1,600 i 2,000 o bersonau i drin tair milltir ysgwar o dir; galwai'r ystad yn *phalange*, ac yr oedd un adeilad mawr a elwid yn *phalanstere* i'r bobl drigiannu ynddo. Eithr nid oedd y pentref ar linellau cymuniaethol. Ni ddileid ynddo eiddo personol nac etifeddiaeth. Yr oedd holl enillion y *phalange* i gael eu dosbarthu fel y bwriadai Owen wneyd yn ei bentrefi; a gorfodid pawb i weithio. Y mae yn hynod sylwi fod "tri dyn," ys dywed Reybaud, "yn

dod, ar yr un pryd, yn anibynnol ar eu gilydd, yn feddianol ar yr un syniad cyffredin,—sef sefydlu bywyd newydd a chyhoeddi moesoldeb newydd. Yr oedd y tri, St. Simon, Fourier, ac Owen, mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd, yn chwilio am well trefniant llafurawl, ac yn cyhoeddi mai deddf bywyd yn y dyfodol fyddai cariad, yn ol y cyntaf; atdyniad *(l' attraction)* yn ol yr ail; ac ewyllys da yn ol y trydydd."* Credaf fod Reybaud yn iawn; a phan y gwahaniaetha rhwng y tri hyn, fe welir nad yw y naill o honynt nepell oddiwrth y llall. Owen oedd yr unig un o'r tri i ddysgu Cymuniaeth; ond nid ydyw hyn ond y ffurf derfynol ar egwyddorion y lleill.

Safai Owen ar ei ben ei hun mewn gwadu cyfrifoldeb moesol. Nid efe oedd y cyntaf i wneyd hyn; ac nid ei ddadl ef gyda'r byd crefyddol ydoedd y gyntaf ar y pwnc. Dyma'r asgwrn cynnen rhwng Awstin a Phelagius, rhwng Bernard ac Abelard, rhwng Leibnitz a Boyle. Yr oedd crefydd "resymol" Owen yn dal delw y syniad hwn. Yr oedd dyn yn byw yn hollol yn y presennol. Yr oedd Comte

* Etudes, tud. 309.

wedi gweled na ddichon crefydd fyw oedd heb wreiddiau yn y gorffennol, ac nad oedd yn ymestyn i'r dyfodol. Felly creodd ryw fath o addoliad o ddynion da'r gorffennol, a rhyw fath o nefoedd hefyd yn y dyfodol. Eithr nid oedd gan Owen y naill na'r llall. Am hynny yr oedd ei grefydd yn unigol i ddyn a gallu ynddo, ie, ag angen ynddo, i edrych yn ol a blaen. "Dans la systéme rationale, adieu les horizons de l' idealite, adieu les aspirations vers l' infini, adieu la poesie, adeu l' enthousiasme, adieu la foi."* Dyna paham yr oedd crefydd Owen yn anigonol i ddyn.

Pwy ydyw tad Cymrawdoliaeth? Dywed Graham† mai St. Simon ydyw. Ar y llaw arall dywed Mrs. Sidney Webb‡ mai Owen ydyw. Gesyd Kiskup* 1817 fel dyddiad dechreuad Cymrawdoliaeth, —

*Reybaud, Etudes. tud. 202,—" Dan y gyfundrefn resymol, rhaid canu'n iach i orwel delfryd, i bob ymestyn at yr anfeidrol, i farddas, i frwdfrydedd ac i ffydd!"

† Socialism New and Old, tud. 73.

‡ The Co-operative Movt., tud. 16.

* History of Socialism, tud. 19; ac yn yr Encyclopædia Britannica (s. Socialism).

sef yr adeg y rhoddodd Owen ei adroddiad ger bron Cyfeisteddfod y Senedd ar Ddeddf y Tlodion. Wrth gwrs, dibyna llawer ar yr hyn feddylir wrth ddefnyddio'r gair. Ar y cyntaf ei ystyr ydoedd yr athrawiaeth o adgenhedlu cymdeithas drwyddi ei hun, mewn cyferbyniad i wneuthur hynny drwy y wladwriaeth. Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd Owen yn credu yn gryf yn hyn. Eithr drwy Reybaud,† y mae y gair yn awr ym mhob iaith yn cynrychioli unrhyw athrawiaeth a gynhwysa yr egwyddor o wella cyflwr y dosbarthiadau gweithiol mewn unrhyw fford. Y ddau ffurf mwyaf amlwg a gymer yr egwyddor ydynt *State Socialism* a *Collectivism*. Yr oedd Rousseau wedi awgrymu y naill hanner can mlynedd cyn Owen, a St. Simon yntau ar ei ol wedi ei bregethu. Eithr Robert Owen fu'r cyntaf i ddwyn yr egwyddor o fyd egwyddorion i fywyd cymdeithas. Ac os mewn gwneyd yn hytrach na dweyd y mae Tadolaeth yn gorwedd, y mae Deddf Gweithdai 1819 yn rhoddi'r teitl i Owen. Nid yw *Collectivism* ond datblygiad o *State Socialism* mewn gwirionedd. O ymyr-

† Ibid, tud. 3, 4.

aeth y Wladwriaeth mewn masnach, nid oes fawr ffordd i reoleiddiad. Ac nid yw rheoleiddiad moddion cynnyrch nepell oddiwrth eu perchenogi. Daeth Owen yn agos iawn at hyn. Pan y ceisiodd droi yr Undebau Llafur yn gwmniau cynhyrchiol cenhedlaethol, y cyfan oedd ar ol ydoedd y syniad o fachu y symudiad yn y Wladwriaeth. Ond yr oedd difaterwch gwleidyddol yn rhan o gredo Owen yn y dyddiau hynny. Ac fe roddwyd i Gymrawdoliaeth gan y symudiad Siartistaidd yr hyn nad oedd gan Owen i'w roddi, sef y wybodaeth mai drwy y Wladwriaeth yn unig y mae sicrhau gwelliant effeithiol yng nghyflwr cymdeithas. Serch hynny, credwn mai i Owen y perthyn yr enw "Tad Cymrawdoliaeth," pa un bynnag ai teitl o barch ynte o amharch ydyw. Fe brofa y toraeth deddfau er budd y gweithiwr, a thyfiant y Symudiad Cydweithredol ddarfod i Owen weled ymhellach na'i gyfoedion. Serch y pentwr amrwd ac anaddfed o syniadau rhyfedd sydd yn amgylchu'r ddwy elfen fawr yn ei waith, fe erys y pethau hyn yn dystiolaeth i gywirdeb ei weledid. "Am y gweddill," medd Charles Gide, "y mae

hanes trefnidol Lloegr yn cyfiawnhau i fesur rhyfedd raglen ddeublyg Owen ; gan y gwelwn, mewn un hanner canrif ddeddfwriaeth ar ran y gweithwyr a'r Symudiad Cydweithiol yn dadblygu yn gyfochrog ; ac y mae'n debyg, heb gydrediad y deddfau hyn na buasai Cydweithrediad wedi cael y fath ddatblygiad rhyfeddol.''*

Feallai, wedi'r cyfan, fod Owen yn fwy fel trefnwr *(organiser)* na meddyliwr. I hyn yr oedd ganddo allu cynhenid. Ac y mae lle i gredu mai oherwydd ei fod yn ceisio gweithredu ar ei egwyddorion, yn hytrach nag oherwydd yr egwyddorion eu hunain, y mae wedi ennill iddo'i hun y fath le ymhlith meddylwyr. Cychwynnodd symudiadau mawrion, eithr ni ddeallodd eu gwir ystyr, ac oherwydd ceisio o hono eu gwyrdroi i'w amcanion ei hun, fe brofodd bron yn angeu iddynt. Ni ddeallodd mai cymhwysiad o'i egwyddorion at angenion ei oes ydoedd y Symudiad Cydweithredol, a cheisiodd ei wneyd yn symudiad er sefydlu Cymuniaeth. Gwnaeth yr un peth gyda'r Undebau

* "Un socialiste pratique—Robert Owen" par Auguste Fabre, 1895. Rhagymadrodd gan Charles Gide, tud. xiii.

Llafur. Eithr nid i hyn y ganwyd y symudiadau, a buont yn agos at angeu oherwydd ceisio o honynt wneuthur yr hyn nis bwriadwyd hwynt i'w wneyd.

Wedi gwneyd cyfiawn gyfrif am holl wallau a gwendidau Owen, fe erys yn rhes flaenaf diwygwyr cymdeithasol. Gesyd Leigh Hunt ef ymhlith y dynion hynny,—"Y rhai yn eofn a chariadus a wynebasant anhawsterau mwyaf dyrys ac ofnadwy eu dydd—Lamennais, Robert Owen, y Parkers, y Fosters a Newman." "Buaswn," meddai Southey, "yn gosod Owen ymhlith y tri wyr hynny sydd wedi rhoddi mwyaf o symbyliad i'r byd moesol yn yr oes hon. Y ddau arall ydynt Clarkson a Dr. Bell."

## IV. ROBERT OWEN—EI GYMUN RODD.

GALLEM gymhwyso i Robert Owen gyda phriodoldeb arbennig fedd-argraff Syr Christopher Wren yn Eglwys St. Paul.—"Si monumentum requiris, circumspice." Eled yr ymofynnydd i un o drefydd Lloegr a gweled yno yr Ystordy Cydweithredol. Chwilied drwy lyfr deddfau Prydain, a gweled ynddo'r deddfau mynych er gwella bywyd y gweithiwr,—a hwynt hwy oll yn blant i ddeddf 1819. Edryched yr ymofynydd hefyd ar wynebau'r babanod sydd yn derbyn addysg yn yr ysgolion elfennol. Fe roddwyd eisoes* restr o'r sefydliadau hynny yn ein bywyd cenhedlaethol yr ydym yn ddyledus i Owen am danynt. Ein hetifeddiaeth ni oddiwrth Owen ydyw ein haddysg foreuol, a bywyd gwell a mwy cysurus ein gweithwyr. Efe roddodd yr ysbrydiaeth fwyaf i'r gweithwyr yn eu

* Pen. vi., Cyf. ii.

hymchwil am decach a chyfiawnach tal am lafur. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am fod ein trefnidwyr yn cofio fod dyn yn ddyn, ac nid yn beiriant nag yn anifail trachwantus. Serch nos hirfaith yn hanes cymdeithas, ni welwn ddydd teg wedi gwawrio pan y caiff ymwared oddiwrth bob gormes a thrais. Ac i Robert Owen y mae mesur helaeth o'r clod am roddi symbyliad iddi i lafurio a gobeithio am yr amser pan y bydd Rhyfel Masnachol yn peidio a bod.

Pan y bydd marw proffwyd, y mae ei fantell yn disgyn ar eraill. A'r rhan fwyaf o gymunrodd Owen i ni yw y fantell hon. Y mae eto yn aros y gwaith o gyhoeddi fod dyn yn fwy na'r farchnad; a darfod gwneuthur y farchnad er mwyn dyn ac nid dyn er mwyn y farchnad. Megis y daeth dydd Caethwasiaeth a Ffeudaliaeth i ben fe ddaw caethiwed cyflog *(wage slavery)* hefyd i ben, ac fe gaiff y gweithiwr y gwaith y mae ganddo hawl iddo, a chyfiawn dal am dano, heb fod ar ofyn, neu yn ofni unrhyw ddyn pwy bynnag. Dyma, ni dybiwn, fydd pwnc mawr cymdeithasol y ganrif hon,—hawl pob dyn i waith ac i dal teg am

dano. Pa fodd y dygir hyn oddiamgylch ni pherthyn i ni ddweyd. Eithr y mae yn rhaid iddi ddod i hyn. Y mae y bywyd newydd ym myd Llafur yn sicr o fynegi ei hun, a rhoddi Llafur yn ei le priodol,—o flaen ac nid ar ol Cyfalaf. Hyd nes y dygir hyn oddiamgylch, ni chyflawnir gwaith Robert Owen.

A ydyw yn bosibl? Gyda dyledus barch i farn dynion craff a amheuant bosibilrwydd atdrefnu cymdeithas yn amgen na'r peth ydyw, dymunwn ddweyd mai nid dyna'r cwestiwn. Eithr yn hytrach, a ydyw yn gyfiawn? A ydyw yn gyfiawn darparu gwaith i bob dyn a thalu iddo yn ol ei lafur yn hytrach nag yn ol cyflwr y farchnad? Credwn nas gall fod dwy farn ar hyn. Ac os nad oes eto weledigaeth eglur o'r ffordd i gyrraedd hyn, yna fe erys y cyfrioldeb o ddod o hyd i'r ffordd.

Ym mha gyfeiriad y mae yn rhaid i ni edrych am y dylanwadau sydd i ddwyn hyn i ben? Yn ddiddadl, at y gweithwyr eu hunain ac at yr Eglwys. Y mae y gweithwyr wedi dangos eisoes drwy eu Hundebau y gallant ddylanwadu ar y farchnad; ac y mae heddyw i Lafur gyn-

rychiolaeth gref ac effeithiol yn Senedd ein gwlad. Y mae cynnydd yr Undebau, y brwydrau celyd sydd eisoes wedi cymeryd lle rhwng Llafur a Chyfalaf yn dangos yn eglur y bydd Llafur yn drech na Chyfalaf yn y man; ac y bydd i Lafur ddefnyddio Cyfalaf, ac nid Cyfalaf yn gwneyd defnydd o Lafur.

Nid yw yr Eglwys heb ddangos arwyddion y bydd iddi hithau gymeryd rhan yn yr ymgyrch hwn. I Robert Owen y mae yn rhaid i ni edrych am darddiad y symudiad yn yr Eglwys. Rhoddodd ef symbyliad helaeth i'r Siartistiad; ag o Siartistiaeth y ganwyd Cymrawdoliaeth Gristionogol Kingsley, Hughes a Maurice, a hwynt hwy a gyfrifir fel proffwydi y symudiad presennol yn Eglwys Loegr—"*The Christian Social Union.*" Y mae yr Eglwysi Ymneillduol erbyn hyn yn meddu cyffelyb gymdeithasau. Ac yn yr ymgyrch o blaid hawl-freintiau'r gweithiwr, fe sudda pob gwahaniaeth, a bydd byddin gref o arweinwyr crefyddol y dydd yn ymladd dros atdrefniad Llafur a Chyfalaf. Ac ym mywyd newydd y gweithiwr y rhoddir y goron ar waith Robert Owen.

Ac i Gymru, pa beth a adawodd? Fe adawodd iddi'r clod ddarfod i un o'i phlant aberthu yr oll a feddai ar allor gwasanaeth dynoliaeth. Fe ddanghosodd iddi fod yn ei mheibion y gallu i ymladd ar ran ei gyd-ddynion. Aeth Robert Owen i'r byd, a danghosodd ei hun yn well Cymro drwy wneyd hynny na thrwy aros gartref. Gwladgarwch gul a diwerth a gynhwysir yn yr ymadrodd "Cymru i'r Cymry." Y gwir wladgarwch ydyw a ddywed "Cymru a Chymry i'r holl fyd." Hwnnw yw'r goreu wladgarwr a gar weled ei wlad yn ymberffeithio, ac yn ymddatblygu,—ac yn ei helpu i wneyd hynny,—er mwyn rhoddi iddi ei phriod le yng ngwasanaeth dynolryw. Ped arhosasai Robert Owen yng Nghymru ni byddai son am dano tuallan i'w therfynau. Eithr fe ddysgodd iddi y gall fentro perffeithio ei phlant a'u hanfon allan i'r byd fel y gwnelont yn anrhydeddus eu rhan yn adferiad dynolryw, a thrwy hynny gyflawni amcan ei bodolaeth hi ymhlith cenhedloedd y ddaear.

Os bydd i'r dyddordeb adnewyddol yn Robert Owen beri fod Cymry yn astudio ei hanes a'i waith, a thrwy hynny, i ym-

holi yn fanylach i'r anhawsterau dyrys y ceisiodd ef mor eofn ymgodymu â hwynt, fe ddyblir dyled Cymru i Robert Owen. Nid oes gennym lenyddiaeth drefnidol yn Gymraeg; nid oes gennym eto dermau cyfaddas i fynegi egwyddorion trefnidol. A phwy a wyr na bydd i'r ffaith fod Cymru yn dechreu cofio mai Cymro oedd Robert Owen, agor maes newydd o wybodaeth y bydd rhai eto o'i phlant yn hynodi eu hunain ynddo, ac yn dwyn clod i'r wlad a'i magodd?

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA "CYMRU."

# Er mwyn Iesu.

GAN

**OWEN M. EDWARDS, M.A.**

---

## Hanes Crefydd a'r Erlid yn Ffrainc.

---

CYNHWYSIAD:

Allor newydd—Ffrainc ai'r Iesu—Diwygwyr Paris—Y Gwenith Addfed—Dechreu'r Erlid—Brenin mewn penbleth—Y Llais Udgorn—Tân hen Aelwyd—Dinasoedd Noddfa—Merindol—Yr Hen a'r Newydd—Deddf Greulon—Eglwys Calfinaidd Ffrainc—Gobaith am Noddfa—Arweinwyr—Cydfradwriaeth Amboise—Cynhadledd Poissy—Diweinio'r Cledd—Cynllwyn a Brwydrau—Cyflafan Dygwyl Bartholomew—Diwedd yr Hen Genhedlaeth—Hiraeth yr Anialwch.

GYDA DARLUNIAU.

---

**Wedi ei rwymo mewn llian hardd.**

**Pris 1/6. Trwy y Post 1/9.**

*AIL-ARGRAFFIAD.*

---

**Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol o Swyddfa "Cymru," Caernarfon.**

# Llyfrau Newyddion.

*Cyhoeddedig gan Gwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), Caernarfon.*

Nid yw y llyfrau hyn yn gyfres, er eu bod oll o'r un plyg a maint.

LLIAN, 112 TUDALEN, DARLUNIAU.

***PRIS, SWLLT YR UN.***

YN BAROD.

I.

## CLYCH ADGOF.

Penodau yn hanes fy addysg.

GAN OWEN EDWARDS.

1.—Ysgol y Llan.
2.—Hen Fethodist.
3.—Llyfr y Seiat.
4.—Fy Nhad.
5.—Y Bala.
6.—Aberystwyth.
7.—Rhydychen.
8.—Dyrnaid o Beiswyn

II.

## GWREICHION Y DIWYGIADAU.

WEDI EU CASGLU GAN GARNEDDOG.

Penhillion y Diwygiadau, tân oddiar yr allor, yn llawn ysbryd ac athrylith.

III.

## TRO TRWY'R WIG.

GAN RICHARD MORGAN.

*Y Gyfrol Gyntaf.*

1.—Coch y Berllan.
2.—Priodas y Blodau.
3.—Nyth Aderyn Du.
4.—Bore Teg.
5.—Carwriaeth y Coed.
6.—Crafanc yr Arth.
7.—Telor yr Helyg.

IV.

## CERRIG Y RHYD.

### Llyfr o hanes rhai'n camu cerrig rhyd bywyd

GAN WINNIE PARRY.

Cerrig y Rhyd. Y Cawr Hwnw. Y Plas Gwydr. Cwyn y Rhosyn. Anwylaf. Uchelgais y Plant. Y Goedwig Ddu. Blodau Arian. Fy Ffrog Newydd. Y Marchog Glas. Hen Ferch. Breuddwyd Nadolig. Huw. Esgidiau Nadolig. Y Castell ger y Lli. Dros Foel y Don.

V.

## CAPELULO.

GAN ELFYN.

Bore Oes; Crwydro'r Byd; Troi Adre; Troi Dalen, Sêl Tomos; Dysgu Darllen; "Dydd Iau"; Balchder a Phwdin; Gwerthu Almanaciau a Cherddi; Traethu ar Briodas; Anerchiadau a Chynghorion; Araeth Danllyd; Pregeth i Berson; Cwestiynau'r Cyfrwys; Dafydd Evans y Pandy: Cyfarfod Gwytherin: Yn y Cyfarfod Gweddi; Tagu Prydydd: Dywediadau ac Ymgomiau; Tomos ac I. D. Ffraid; Y Gweinidog o'r De; O Flaen yr "Ustus"; Rhyfel â Satan; Yn y Seiat; Galwad Adref.

VI.

## TRO TRWY'R GOGLEDD.

GAN OWEN EDWARDS.

1.—Blaenau Ffestiniog.
2.—Y Perthi Llwydion.
3.—O gylch Carn Fadryn.
4.—Harlech.
5.—Ty'n y Groes.
6.—Llan ym Mawddwy.
7.—Pen y Bryn.
8.—Y Bryn Melyn.

VII.

## ROBERT OWEN, APOSTOL LLAFUR.

GAN Y PARCH. RICHARD ROBERTS, B.A.

Y cartref yn y Drefnewydd. Y Siop yn Llundain. Manceinion. Lanark Newydd. Amseroedd Rhyfedd. Trueni'r gweithiwr. Adam Smith a Malthus. Ym Mharis a'r Ynys Werdd. Ymroddi i wella cymdeithas. Ei syniadau.

VIII.

## DAFYDD JONES O DREFRIW.

GAN Y PARCH. O. GAIANYDD WILLIAMS.

Y Llenor a'i oes. Amcan a lle Dafydd Jones. Pwy ydoedd. Bywyd a Buchedd. Ei Farddoniaeth. Ei Grefydd. Ei Lyfrau. Bwriadau Llenyddol. Fel casglwr hen ysgrif-lyfrau.

IX.

## TRO I'R DE.

GAN OWEN EDWARDS.

1.—Caer Lleon Fawr.
2.—Llanidloes.
3.—Llanfair Muallt.
4.—Abertawe.
5.—Yr Hen Dy Gwyn.
6.—Llangeitho.

X.

## GWAITH HUGH JONES, MAESGLASAU.

DAU O'I LYFRAU,—SY'N BRINION IAWN ERBYN HYN.

I.—"Cydymaith i'r Hwsmon." 1774.
II.—"Hymnau Newyddion." 1797.

XI.

## TRWY INDIA'R GORLLEWIN.

GAN Y PARCH. D. CUNLLO DAVIES.

Nodiadau o hanes taith trwy yr ynysoedd yng ngauaf 1903-04.

XII.

## CERIS Y PWLL.

GAN O. WILLIAMSON.

Rhamant hanesyddol yn egluro cyfnod yr ymdrech rhwng Goidel a Brython a ffurfiad y genedl Gymreig.

# CLASURON CYMRU.

Dan olygiaeth Owen M. Edwards, M.A.

---

## GWELEDIGAETHAU Y BARDD CWSG.

GAN ELLIS WYNNE.

1. Gweledigaeth Cwrs y Byd. 2. Cerdd ar "Gwel yr Adeilad." 3. Gweledigaeth Angau. 4. Cerdd ar "Gadel Tir." 5. Gweledigaeth Uffern. 6. Cerdd ar "Trom Galon."

Wedi ei drefnu ar gyfer yr ysgolion.

---

## DRYCH Y PRIF OESOEDD.

GAN THEOPHILUS EVANS.

1. Y Cymry. 2. Y Rhufeiniaid. 3. Y Brithwyr. 4. Y Saeson.

"Am ddyddordeb *Drych y Prif Oesoedd*, nid oes ond un farn. Y mae'r arddull naturiol a'r cydmariaethau hapus ar unwaith yn ein denu i ddarllen ymlaen."

---

## BYWYD IEUAN GWYNEDD.

GANDDO EF EI HUN.

1. Ardal Mebyd. 2. Fy Mam. 3. Bore Oes. 4 Athrawon. 5. Cathlau Blinder. 6. Gwaith Bywyd.

"Nid oes odid i fywyd yn holl hanes bechgyn ieuainc Cymru mor llawn o wersi i wyr ieuainc yr oes hon a Bywyd Ieuan Gwynedd, yn ei gyni dros Dduw a Chymru, trwy dlodi ac afiechyd, a hiraeth a dioddef. Y mae yn fywyd na ddylai'r Cymry byth anghofio am dano."

---

Wedi eu rhwymo mewn llian hardd, gyda darlun.

***PRIS SWLLT YR UN.***

Drwy y post, 1/1½. Mewn amlen bapur, 6c.
Drwy y post, 7c.

---

Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), Swyddfa "Cymru," Caernarfon.